Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
| --- | --- |
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 16 RHAGFYR 2025 10.00 o'r gloch** | **TUESDAY 16 DECEMBER 2025 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |
| --- | --- | --- |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025.

**5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6 RHEOLI'R TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2025/26** (Tudalennau 19 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 CYNLLUN STRATEGOL DIGIDOL ADDYSG 2026-2031** (Tudalennau 39 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**8 YMGYNGHORIAD CASGLU AC AILGYLCHU GWASTRAFF** (Tudalennau 59 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**9 RHENTI A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2026/27** (Tudalennau 71 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**10 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 81 - 84)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y

posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

**11** **<u>YMATEB I'R HER TAI LLEOL - DATBLYGIAD TAI DROS 10 UNED: PLAS PENLAN, LLANGEFNI</u>** (Tudalennau 85 - 90)

Cyflwyno adoddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgora ac ar-lein ar Zoom ar 25 Tachwedd, 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitemau 13 a 14)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 7 ac 8)<br>Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau (GP) (ar gyfer eitemau 7 ac 8)<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitemau 13 a 14)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>(Swyddog Gwe-ddarlledu)(FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Mr Huw Percy (Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Derek Owen. |

---

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu gohirio ystyried eitem 15 ar yr agenda – Ardoll Ymwelwyr. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro eu bod yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ohirio'r eitem hon, yn amodol ar dderbyn cyngor allanol ynghylch amseriad yr asesiad effaith statudol sy'n ofynnol cyn y gellir gwneud penderfyniad. **Penderfynwyd gohirio eitem 15 a'i thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol am y rheswm a roddwyd.**

### 1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w hadrodd.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025 yn gywir.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Rhagfyr, 2025 a Gorffennaf, 2026, i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch y newidiadau canlynol i'r Blaenraglen Waith –

- Cyfarfod 16 Rhagfyr 2025 – mae'r eitemau newydd yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, Datblygiad Tai Newydd ar safle Plas Penlan, Llangefni a'r Ymgynghoriad ar Gasglu ac Ailgylchu Gwastraff. Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn eitem sydd wedi'i haildrefnu o'r cyfarfod ar 25 Tachwedd
- Cyfarfod 27 Ionawr 2026 – mae'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yn eitem newydd ac mae Cyllideb Refeniw Ddrafft 2026/27 yn eitem sydd wedi'i haildrefnu o gyfarfod 25 Tachwedd ac mae'n amodol ar amserlen gosod cyllideb Llywodraeth Cymru.
- Cyfarfod Gorffennaf 2026 – eitem newydd yw'r Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.
- Penderfyniadau a Ddirprwywyd i Ddeiliad y Portffolio - Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024/25 i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2026 ac Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26 i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2026 .

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng Rhagfyr 2025 a Gorffennaf 2026, gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.**

## 6. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD - RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor Gwaith ar ddiwygiad arfaethedig i'r Cyfansoddiad i gael cymeradwyaeth derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn lle'r Cyngor, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi bod y Swyddog Adran 151 wedi gofyn am y diwygiad ar ôl ymgynghori ag Archwilio Cymru i sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn gyson â'r rhai sydd bellach yn weithredol mewn prif gynghorau yng Nghymru. Mae gan Gynllun Blynyddol Archwilio Cymru nod clir i ddwyn ymlaen amserlen archwilio llywodraeth leol, gyda'r dyddiad awdurdodi'r cyfrifon ar gyfer 2025/26 wedi'i osod ar 30 Medi 2026, sef mis yn gynt nag yn 2024/25. Os bydd cymeradwyaeth yn fater sy'n parhau dan ofal y Cyngor Llawn, byddai angen aildrefnu cyfarfod Medi 2026 neu gynnull cyfarfod arbennig. Byddai dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithlon gan osgoi'r gost a'r anghyfleustra o gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn heb effeithio ar y cynghorwyr na'r cyhoedd gan y byddai'r cyfrifon yn dal i fod ar gael i'w

harchwilio yn yr un modd. Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams sylw at y ffaith y byddai'r gwelliant arfaethedig ond yn dileu cam olaf y broses bresennol h.y. cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, roi cymeradwyaeth derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor.**

## 7. MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2025/26, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a ddangosodd fod 87% o'r dangosyddion oedd â thargedau a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau hynny a'u bod yn Wyrdd neu'n Felyn. Tynnodd sylw at berfformiad da sydd wedi'i gynnwys yn adran 2.3 o'r adroddiad cerdyn sgorio a nododd hefyd y meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaethau perthnasol yn ymchwilio iddynt i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r meysydd hynny, y manylir arnynt yn adran 2.2 o'r adroddiad ynghyd â mesurau lliniaru cysylltiedig, yn ymwneud â dangosyddion o dan yr adran Tai, Economi, Newid Hinsawdd ac Iechyd y Cyngor Cyfan. Daeth i'r casgliad bod y cerdyn sgorio yn cyflwyno darlun cadarnhaol o berfformiad ar ddiwedd yr ail chwarter.

Adroddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ôl o gyfarfod y pwyllgor ar 18 Tachwedd 2025, a oedd wedi ystyried adroddiad cerdyn sgorio Ch2. Roedd y pwyllgor wedi trafod yr adroddiad yn fanwl ac wedi myfyrio ar berfformiad cadarnhaol cyffredinol y Cyngor yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor yn y cyfnod. Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd ynghylch cynnydd mewn perthynas â dangosyddion sy'n is na'r targed neu sy'n galw am ymyrraeth bellach a nodwyd y meysydd lle mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaethau perthnasol yn gweithio i sicrhau gwelliannau. Roedd y pwyllgor wedi argymell yr adroddiad a'r mesurau lliniaru a amlinellir ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y drafodaeth fanwl a'r cwestiynu trylwyr ynghylch tanberfformiad gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Nodwyd bod y dangosyddion Tai isod bellach yn dangos gwelliant, gyda'r grŵp tasg a gorffen Sgriwtini a'r Gwasanaeth Tai wedi gweithio'n galed i sicrhau cynnydd. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, fel y cyn Aelod Portffolio Tai, fod materion yn ymwneud â'r amser a gymerwyd i ailosod eiddo'r cyngor wedi cael eu nodi beth amser yn ôl a bod camau i wella hyn yn parhau i fynd rhagddynt. Bydd y mater yn parhau i dderbyn sylw gan y gwasanaeth a'r aelod portffolio presennol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Hamdden, Morwrol, Twristiaeth ac Eiddo at ddangosydd Economi 04 sy'n tanberfformio - cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol ac esboniodd ei fod wedi dweud wrth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y gallai'r targed o 65 fod yn afrealistig o ystyried y newid o ran arferion a pherchnogaeth cychod, disgwyliadau cynyddol a hwylustod ac apêl gynyddol cyfleusterau'r marina.

Hefyd cydnabu'r Pwyllgor Gwaith berfformiad cryf parhaus Môn Actif gyda ffigurau cyfranogiad eto yn uwch na'r targed. Er bod y Cyngor yn mesur perfformiad Môn Actif o dan ddangosydd lleol Gofal Cymdeithasol a Lles DP12, nid yw'r dangosydd statudol a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru – DP11, sy'n cofnodi nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden, yn cofnodi'r data hwn. Nododd y Cadeirydd fod sylwadau wedi'u gwneud o'r blaen i Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o DPA 11 i gynnwys gweithgareddau cymunedol a ddarperir gan Môn Actif.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2025/26 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaeth perthnasol yn ymchwilio iddynt er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud â Thai (ail-osod eiddo gwag a chyflawni Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), yr Economi (nifer y contractau angori blynyddol ac archwilio busnesau risg uchel i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff o'r cartref) ac Iechyd y Cyngor Cyfan (ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r amserlen).**

## 8. ADRODDIAD HUNANASESIAD A PHERFFORMIAD (LLESIANT) 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad statudol sydd am y tro cyntaf yn cyfuno adroddiad hunanasesiad, perfformiad (llesiant) y Cyngor ar gyfer 2024/25. Mae'r adroddiad yn nodi pa mor effeithiol ac effeithlon mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau dros y flwyddyn. Mae'n crynhoi canlyniad y broses adolygu gwasanaeth a oedd yn archwilio cynllunio a pherfformiad gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio a llywodraethu'r gweithlu gan gynnwys caffael, rheoli contractau, risg ac archwilio. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu allbynnau a pherfformiad y Cyngor yn erbyn ei gynlluniau penodol a'i ymrwymiadau ond nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu effaith lawn ei waith ar ganlyniadau cymunedol y gall ffactorau ehangach y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ddylanwadu arnynt. Mae hefyd yn nodi meysydd i'w gwella. Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor, Cynllun y Cyngor a'i ganlyniadau tymor hir ar gyfer 2028.

Adroddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o gyfarfod y pwyllgor ar 18 Tachwedd 2025, a oedd wedi adolygu'r adroddiad hunanasesiad. Nododd fod y pwyllgor yn cydnabod y casgliadau cadarnhaol ynghylch perfformiad a'i gais am sicrwydd bod y Cyngor yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor erbyn 2028. Roedd y pwyllgor hefyd wedi gofyn am sicrwydd ynghylch y cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant, yn enwedig y strategaeth gofal dydd a'r cynlluniau i arfogi pobl ifanc â sgiliau i elwa o ddatblygiadau economaidd yn y dyfodol. Roedd y pwyllgor wedi pwysleisio ei bod yn bwysig eu bod yn parhau i gyfathrebu llwyddiannau a straeon cadarnhaol y Cyngor a thrafodwyd y canfyddiadau sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth preswylwyr a phrosesau ymgynghori. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi cymeradwyo'r adroddiad a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Tynnodd y Pwyllgor Gwaith sylw at y gwaith sylweddol sy'n sail i'r adroddiad hunanasesiad sy'n cynnwys proses drylwyr i herio ac archwilio ar draws pob gwasanaeth i ddod i'w gasgliadau. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd mai un o'r prif negeseuon o adolygiad y pwyllgor Sgriwtini o'r adroddiad oedd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyfathrebu'n gliriach ehangder ei waith a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Nododd y Cadeirydd fod y Cyngor yn aml yn cael ei gydnabod mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol fel arloeswr a'i fod yn dangos arweinyddiaeth ar draws sawl maes portffolio, a bod y llwyddiannau hyn yn dyst i ymroddiad a phroffesiynoldeb ei staff.

**Penderfynwyd mabwysiadu Adroddiad Hunanasesiad Pherfformiad (Llesiant) 2024/25.**

DRAFFT

## 9. MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 i 30 Medi 2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a oedd yn rhagweld tanwariant diwedd blwyddyn o £1,707k (0.88%) ar y gyllideb refeniw. Er bod y chwe mis hyd at ddiwedd Chwarter 2 yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch patrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, gall cyfnod y gaeaf ddod â'i heriau, gan gynnwys galw cynyddol am nifer o wasanaethau a allai arwain at gostau uwch i'r Cyngor.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaethau (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod dadansoddiad o sefyllfa'r gyllideb a ragwelir yn ôl gwasanaethau fel y nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad yn dangos gorwariant cyffredinol o £404k. Y prif faes sy'n peri pryder yw Gwasanaethau Plant lle rhagwelir, yn seiliedig ar ffigurau Ch2, y bydd gorwariant o £1.462m ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd costau cynyddol lleoliadau y tu allan i'r sir, a hynny er bod cyllideb y gwasanaeth ar gyfer 2025/26 wedi cynyddu £2m ynghyd â chwyddiant. Mae problemau recriwtio mewn rhai gwasanaethau hefyd yn cyfrannu at wariant uwch ar staff asiantaeth. Tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw ymhellach at y gorwariant o £3,032k sy'n deillio o'r newid yn y galw am wasanaethau (gweler Tabl 5) gan nodi bod hyn yn adlewyrchu'r pwysau ariannol parhaus ar y Cyngor. Er bod ffactorau fel swyddi gwag, cynhyrchu incwm a grantiau ychwanegol yn helpu i liniaru'r gorwariant yn 2025/26, efallai na fydd y rhain yn cael eu hailadrodd yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen ystyried hyn wrth osod y gyllideb ar gyfer 2026/27.

Mae cyllidebau corfforaethol yn perfformio'n unol â'r targed gyda chostau benthyca is ac enillion buddsoddi uwch yn arwain at danwariant. Mae cyllideb y Dreth Gyngor hefyd yn perfformio'n well na'r hyn a broffiliwyd oherwydd y newid yn y rheolau cymhwysedd ar gyfer ardrethi busnes ar lety hunanarlwyo. Mae hyn wedi arwain at drosglwyddo nifer o eiddo yn ôl o ardrethi busnes i'r Dreth Gyngor gan olygu y bydd raid iddynt dalu premiwm ar y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd apeliadau yn erbyn yr ailddosbarthiad hwn ac os byddant yn llwyddiannus, byddai gofyn i'r eiddo hynny gael eu tynnu oddi ar gofrestr y Dreth Gyngor, gan leihau incwm a bydd angen ad-dalu'r Dreth Gyngor sydd eisoes wedi'i thalu. Mae cyllid wedi'i neilltuo i fynd i'r afael â'r risg hon. Daeth y Swyddog Adran 151 â'i sylwadau i ben trwy gadarnhau mai'r prif risg ar y cam hwn yw cyfnod y gaeaf a allai arwain at gostau uwch i'r Cyngor.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod Chwarter 3 yn gyfnod allweddol ar gyfer rheoli'r gyllideb, o ystyried y pwysau posibl ym misoedd y gaeaf, yn enwedig y galw cynyddol am wasanaethau fel cymorth digartrefedd a gofal cymdeithasol sydd â'r potensial i newid y rhagolygon ariannol. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod y Cyngor mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd wrth iddo wynebu cyfnod y gaeaf.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD.**



DRAFT

## 10. MONITRO CYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2025/26, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi, ym mis Mawrth 2025, fod y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £23.7m ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a £20.594m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £2.529m gael ei ddwyn ymlaen o 2024/25 gan ddod â'r rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.929m a £20.894m ar gyfer y CRT. Ers y broses o osod y gyllideb, mae cynlluniau ychwanegol, a ariennir gan grant yn bennaf, wedi'u hychwanegu at y rhaglen ynghyd ag addasiadau i'r cyllid sy'n dod i gyfanswm o £12.846m. Mae hyn yn dod â'r gyllideb gyfalaf gyffredinol ar gyfer 2025/26 i £59.669m. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, ar 30 Medi 2025, fod £17.480 miliwn o'r gyllideb wedi'i wario gyda £2.096 miliwn arall wedi'i ymrwymo gan arwain at gyfanswm o £19.576 miliwn (33%). Mae nifer o gynlluniau cyfalaf yn cael eu pwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, ac mae rhai yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau gan arwain at lithriad, nid yw hyn yn anarferol. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli o ganlyniad i hyn.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sylw at y ffaith bod y Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllid grant ar gyfer ei wariant cyfalaf gyda 60% o'r gyllideb gyfalaf yn deillio o ffynonellau grant. Y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yw £4.502m ac mae tua £1m ohono yn ymwneud â chyllid grant. Mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd na fydd y cyllid hwn yn cael ei golli. Mae'r tanwariant sy'n weddill yn ymwneud â phrosiectau a ariennir gan y Cyngor, gan sicrhau nad oes unrhyw risg o golli cyllid.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2025/26 yn ystod chwarter2.**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £3.483m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf, a newidiadau mewn cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £59.669m ar gyfer 2025/26.**

## 11. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi bod y gyllideb refeniw wedi'i gosod gyda gwarged cyllidebol o £6,291k. Y gyllideb cyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,521k. Mae cyllid grant gwerth £9,173k yn gostwng y gyllideb net i £15,348k. Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £9,057k. Bydd £6,820k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £2,237k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol. Mae cyllideb refeniw y CRT ar ddiwedd yr ail chwarter yn £276k, sy'n well o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd a rhagwelir y bydd tanwariant o £404k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cynnydd o £1,492k yn y gwariant cyfalaf, i

£24,521k, a rhagwelir tanwariant o £2,465k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae incwm grantiau wedi cynyddu i £9,173k, ac mae disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n llawn. Mae'r diffyg a ragwelir trwy gyfuno'r cyllidebau refeniw a chyfalaf bellach yn £6,188k, £2,869k yn llai na'r gyllideb. Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i gyllido'r CRT.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod perfformiad cyllideb refeniw y CRT wedi aros yn sefydlog, gan gynhyrchu gwarged diwedd blwyddyn bob blwyddyn sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn stoc bresennol neu ddatblygiadau tai newydd. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cronfa'r CRT o'r blaen i gefnogi buddsoddiad wrth iddo barhau i ddatblygu a phrynu tai newydd, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2025/26. O ganlyniad, mae balans wrth gefn y CRT wedi gostwng a disgwylir iddo fod yn oddeutu £1.7m erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n cael ei ystyried fel yr isafswm lefel sy'n dderbyniol o dan Gynllun Busnes y CRT. Felly, bydd angen ariannu datblygiadau tai yn y dyfodol drwy fenthyciadau a fydd yn cynhyrchu costau refeniw. Efallai y bydd angen i'r Cyngor adolygu ei gynlluniau datblygu tai yn y dyfodol yng ngoleuni hyn a ffactorau eraill megis Polisi Rhent Llywodraeth Cymru a lefel yr incwm rhent a sicrhawyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi llwyddo i gynyddu nifer y tai lleol sydd ar gael dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, nid yw'r broses ariannu bresennol yn cael ei hystyried yn addas i'r diben ac os na fydd newid, mae risg y bydd mwy o ddigartrefedd, gan roi pwysau pellach ar gyllideb refeniw y Cyngor. Nid yw rhagamcanion ar gyfer y gyllideb hon yn gwella, gan wneud y mater hwn yn fwy nag ystyriaethau cyfalaf yn unig. Mae'r Cyngor yn gweithio i ddylanwadu ar newid ac i sicrhau bod polisïau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'n well anghenion awdurdodau lleol sy'n cadw eu stoc dai yn ogystal â'r rhai sydd wedi trosglwyddo stoc i gymdeithasau tai.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y cydbwysedd rhwng polisi rhent a'r gofyniad i gynnal stoc dai i safonau ansawdd. Fodd bynnag, nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran trawsnewid a phrynu tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tra bod y Cyngor yn datblygu polisïau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi, bydd lleihau'r rhestr aros, sydd ar hyn o bryd tua 800, yn dibynnu ar ddatblygiadau newydd. Mae'r cynllun presennol yn cynnwys 155 o gartrefi newydd sy'n tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad pellach os yw'r rhestr aros yn cael ei datrys.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2025/26.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**

**12. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2026/27**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at ddibenion gosod sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2026/27, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a oedd yn nodi'r cyfrifiadau ar gyfer gosod sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2025. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2025, ac i bwrpas gosod y dreth (gyda



DRAFT

chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith) erbyn 9 Ionawr 2026. Y ffigur a gyfrifwyd ar gyfer sylfaen y Dreth Gyngor i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i osod y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2026/27 yw 31,705.675, sy'n gynnydd o 0.80% ar y flwyddyn flaenorol. Nid yw’r ffigur hwn yn cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau a gostyngiadau a roddir gan rai awdurdodau mewn perthynas â Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar y Cyngor yn Ynys Môn gan nad oes gostyngiadau o'r fath yn cael eu rhoi). Cyfanswm y sylfaen dreth a gynigir ar gyfer 2026/27 at ddibenion gosod y dreth sy'n cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau yw 33,887.44 ac mae'n gynnydd o 1.24% ar y flwyddyn flaenorol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnodd)/Swyddog Adran 151 y broses lle cyfrifir Sail y Dreth Gyngor at ddibenion Llywodraeth Cymru wrth bennu lefel y Grant Cynnal Refeniw a hefyd at ddibenion gosod treth leol a'r ffactorau dan sylw.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd sylfaen y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd ar gyfer gosod y Dreth Gyngor wedi newid yn sylweddol yn dilyn penderfyniad y Prisiwr Dosbarth i ailddosbarthu eiddo penodol o ardrethi busnes i'r Dreth Gyngor oherwydd newid yn y rheolau cymhwysedd ar gyfer llety hunanarlwyo.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 15 fod eiddo a drosglwyddwyd yn ôl i'r Dreth Gyngor o ardrethi busnes bellach yn gorfod talu’r Dreth Gyngor safonol sy'n cyfrannu at gyfrifiadau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r eiddo hwn yn gorfod talu’r premiwm ar ail gartrefi sy'n cyfrannu i gyfrifiadau'r Cyngor yn unig. Byddai apeliadau llwyddiannus yn erbyn ailddosbarthu yn arwain at dynnu'r eiddo hynny oddi ar gofrestr y Dreth Gyngor a thrwy hynny leihau sylfaen y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu grant cymorth refeniw ychwanegol i wrthbwyso'r gostyngiad hwn, byddai'r Cyngor yn colli'r incwm ychwanegol a gynhyrchir gan y premiwm. Yn hanesyddol, mae sylfaen y Dreth Gyngor wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i ddatblygiadau tai newydd ymddangos.

Pwysleisiodd y Cadeirydd ymhellach, er bod data eiddo a ddefnyddir i gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor a'r grant cynnal refeniw yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol, nid yw data poblogaeth sef y prif ffactor wrth benderfynu ar setliad llywodraeth leol wedi'i ddiweddaru ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod heriau arbennig i gynghorau gwledig fel Ynys Môn sydd, oherwydd bod setliad cyllid yn cael ei ddyrannu yn ôl maint y boblogaeth, wedi derbyn setliadau is yn gyson.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo’r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2026/27, sef 31,705.67 (Rhan E6 - Atodiad A i’r adroddiad).**
- **Cymeradwyo’r cyfrifiad at ddiben gosod Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2026/27 (Rhan E5 - Atodiad A i’r adroddiad)**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a’r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2026/27, sef 33,887.44, ac am y rhannau hynny o'r ardal mae fel a restrir yn yr adroddiad o dan argymhelliad 3.**



DRAFT

## 13. RHAGLEN CYSYLLTU Â GWAITH 2025-2030

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith ar Ynys Môn, i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, yr adroddiad gan nodi bod y rhaglen Cysylltu â Gwaith yn rhaglen genedlaethol ac yn rhan o agenda Get Britain Working y DU. Nod y rhaglen yw cael mwy o bobl yn ôl i waith cynaliadwy, yn enwedig y rhai sydd ag anabledd a chyflyrau iechyd, ac unigolion sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i weithio, gan weithio mewn ffordd ddatganoledig gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Eglurodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel y corff atebol ar ran awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Sefydlwyd gweithgor o swyddogion awdurdodau lleol ac mae'n cyfarfod bob pythefnos i ddatblygu'r rhaglen gyda'r bwriad o gyflwyno Cynllun Darparu i'r Adran Gwaith a Phensiynau gyda'r nod o'i gymeradwyo erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025. Disgwylir i'r rhaglen ddechrau ym mis Ionawr 2026 a bydd yn cael ei chynnal tan fis Mawrth 2030. Y targed ar Ynys Môn yw cefnogi 31 o gyfranogwyr erbyn mis Mawrth 2030 ac mae disgwyl y bydd 50% yn cael swydd barhaol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd hyn yn heriol oherwydd anghenion cymhleth cyfranogwyr. Er bod model cyffredinol y rhaglen yn cael ei osod yn genedlaethol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae sut mae'n cael ei chyflawni, yn ôl disgresiwn yr awdurdodau lleol i benderfynu beth fydd yn gweithio orau yn eu hardal leol eu hunain.

Cynigir bod y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb gyda Môn CF i gyflawni'r rhaglen ar Ynys Môn, o ystyried hanes llwyddiannus Môn CF fel prif ddarparwr gwasanaethau cyflogaeth a chymorth busnes ar Ynys Môn. Bydd y strwythurau llywodraethu ac adrodd presennol a ddefnyddir ar gyfer y Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy, sydd hefyd yn cael eu darparu gan Môn CF yn cael eu defnyddio i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir ac i fonitro cynnydd. Bydd y Cyngor a Môn CF yn cydweithio â Chyngor Sir Ddinbych i lunio a chwblhau'r Cynllun Darparu ar gyfer Ynys Môn.

Mewn ymateb i gwestiwn am lywodraethu, cadarnhaodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd y bydd trefniadau llywodraethu yn adlewyrchu'r rhai sydd ar waith ar gyfer rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Môn CF, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd bob pedair i chwe wythnos i fonitro cynnydd a phrosesu hawliadau.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd hyd yma o ran datblygu cynllun darparu rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y Rhaglen Cysylltu â Gwaith 2025-2030.**
- **Cytuno i lunio Cytundeb Cydweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych sy'n gweithredu fel corff arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru.**
- **Cytuno i gyflwyno rhan Ynys Môn o Gynllun Darparu Gogledd Cymru i Gyngor Sir Ddinbych er mwyn ei gyflwyno wedyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau.**
- **Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Adran 151 dderbyn y cytundeb cyllido Cysylltu â Gwaith.**
- **Gwneud cytundeb grant gyda Môn CF Ltd i gyflawni'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith ar ran yr Awdurdod.**

DRAFT

**14. DERBYN CYNIGION GRANT CYLLID UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i dderbyn cynigion grant gan Uchelgais Gogledd Cymru, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, yr adroddiad gan nodi, ym mis Mehefin, 2025, fod y Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd, yn dilyn proses EOI lwyddiannus, wedi'i gynnwys ar y rhestr wrth gefn a'i wahodd gan Uchelgais Gogledd Cymru (UGC) i wneud ceisiadau ffurfiol am gyllid. Datblygwyd Achosion Cyfiawnhau Busnes Manwl a dogfennau ategol ar gyfer Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Ynys Môn a Phorth Peboc a'u cyflwyno i UGC ar 5 Medi 2025. Hysbyswyd y Cyngor yn ffurfiol gan UGC ar 3 Hydref 2025 bod ei gais wedi bod yn llwyddiannus am y swm llawn o £10.474m. Mae'r buddsoddiadau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau economaidd cymdeithasol yng Ngogledd Ynys Môn fel yr amlinellir yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 a Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn. Bydd y cyllid hefyd yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael o'r diwedd â'r materion a'r risgiau mewn perthynas â hen safle Peboc yn Llangefni.

Cydnabu'r Prif Swyddog Datblygu Economaidd fod canlyniad y cais yn ardderchog gan nodi ei fod yn bodloni nifer o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor yn ogystal â blaenoriaethau Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn. Amlinellodd y broses dau gam sy'n cynnwys cytuno ar y telerau gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ac yna cyflwyno llythyr i wneud cais ffurfiol am grant. Cadarnhaodd fod y cam cyntaf ar y gweill ar hyn o bryd a thrwy hynny, y cais i ddirprwyo awdurdod i dderbyn y cynnig grant yn ffurfiol.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a'r cynnig grant gan gydnabod y bydd yn fodd i sicrhau buddsoddiad mawr ei angen yng ngogledd yr ynys, ardal sydd wedi profi nifer o anawsterau economaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr aelodau'n edrych ymlaen at weithredu'r prosiectau a ariennir a diolchodd i'r tîm Datblygu Economaidd am eu gwaith wrth ddatblygu'r cynlluniau busnes a chyflwyno'r ceisiadau.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith nad oedd y prosiectau a gymeradwywyd yn rhan o'r Cais Twf gwreiddiol. Gwahoddwyd y Cyngor i gyflwyno cynigion newydd ac mae hyn yn dangos gwerth bod yn rhagweithiol wrth baratoi prosiectau, gyda chymeradwyaeth cynllunio a alluogodd y Cyngor i symud i frig y rhestr wrth gefn. Ychwanegodd, er gwaethaf cyfyngiadau ariannu, y byddai'r Cyngor yn dymuno gweithredu'r egwyddor hon mewn ardaloedd eraill o'r ynys - er mwyn sicrhau bod prosiectau'n barod i fanteisio ar gyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

**Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, dderbyn y cynnig o £10.474m o arian grant gan Uchelgais Gogledd Cymru.**

**15. ARDOLL YMWELWYR**

Gohiriwyd yr eitem yn unol â'r penderfyniad ar ddechrau'r cyfarfod.

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 16 Rhagfyr 2025 |
| Pwnc: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Aelod(au) portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhellion a rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr – Awst 2026**
- adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda phwyllgorau sgriwtini'r Cyngor
- nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Amherthnasol |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Amherthnasol |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Amherthnasol |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Amherthnasol |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Amherthnasol |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Amherthnasol |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Amherthnasol |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Gweler uchod |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Gweler uchod |
| 4. Adnoddau Dynol | Amherthnasol |
| 5. Eiddo | Amherthnasol |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Amherthnasol |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| | |
|---|---|
| 7. Caffael | Amherthnasol |
| 8. Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau bwyllgor sgriwtini, er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9. Aelodau lleol | Amherthnasol |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2026 |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

| |
|---|
| |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

### Cyfnod: Ionawr - Awst 2026

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.



Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 8 Rhagfyr 2025

Ionawr 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 06.01.26 | Adroddiad gwrthwynebu a dod i benderfyniad terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi | Cyng Dafydd Roberts | |
| Cyfarfod 27.01.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cyllideb Refeniw drafft 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 08.01.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.01.26 |
| | Strategaeth Gyfalaf | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Premiwm y Dreth Gyngor | Cyng Robin Williams | |
| | Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – ffioedd a thaliadau 2026/27 | Cyng Neville Evans | |
| | Cartrefi preswyl yr awdurdod lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2026/27 | Cyng Neville Evans | |
| | Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2026/27 | Cyng Neville Evans | |
| | Cynllun Tuag at Sero Net | Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.01.26 |
| | Ardoll Ymwelwyr | Cyng Alun Roberts | Cyngor Llawn 05.03.26 |

## Chwefror 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth | Cyng Nicola Roberts | |
| Cyfarfod 24.02.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Ffioedd a thaliadau 2026/27 | Cyng Robin Williams | |
| | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.02.26<br>Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Cyllideb Gyfalaf 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.02.26<br>Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Datganiad polisi trwyddedu alcohol ac adloniant rheoledig | Cyng Nicola Roberts | Cyngor llawn 05.03.26 |

## Mawrth 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024/25 | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 17.03.26 |
| Cyfarfod 24.03.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26 |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26 |

## Ebrill 2026



| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 28.04.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mai 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Mai 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26 | Cyng Dafydd Roberts | |
| Cyfarfod Mehefin 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |



## Gorffennaf 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Gorffennaf 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cyfrifon terfynol drafft 2025/26 a defnydd o arian wrth gefn a balansau | Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir | Cyng Nicola Roberts | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **16 RHAGFYR 2025** |
| **Pwnc:** | **RHEOLI'R TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2025/26** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID A BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br><br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad**

Nodi cynnwys yr adolygiad canol blwyddyn ar reoli'r trysorlys ar gyfer 2025/26.

**Rhesymau**

Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys 2021 a Chôd Darbodus CIPFA 2021 (Y Côd), mae'n ofynnol i gorff y Cyngor sy'n gyfrifol am oruchwylio swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor dderbyn adroddiad diweddaru chwarterol ar berfformiad rheoli'r trysorlys y Cyngor a ph'un a yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad economaidd, nodi'r sefyllfa bresennol o ran benthyca, amlinellu perfformiad buddsoddiadau a mesur sefyllfa bresennol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw achosion o fynd yn groes i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Cyflwynir adroddiad mwy cynhwysfawr ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Casgliad**

Nid yw sefyllfa fenthyca'r Cyngor wedi newid, mae buddsoddiadau'n perfformio'n dda, ac mae enillion ar fuddsoddiadau'n well na'r gyllideb, mae'r Cyngor yn parhau i weithredu o fewn y cyfyngiadau a osodir gan Ddangosyddion Perfformiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Flynyddol, er y bu'n rhaid adrodd ar un mân achos o fynd yn groes i'r Strategaeth. Oherwydd hyn, nid oes angen unrhyw gamau pellach, a dim ond nodi'r adroddiad y mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ei wneud.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Adroddiad er gwybodaeth yw hwn yn bennaf ac nid oes angen unrhyw benderfyniadau, felly, nid oes unrhyw opsiynau i'w hystyried.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried gan mai'r Pwyllgor Gwaith yw'r corff y mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb iddo am sicrhau fod rheoli'r trysorlys yn cael ei lywodraethu'n dda. Mae'n sicrhau hefyd fod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol, ond mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Flynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2025.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Nid oes angen unrhyw benderfyniad fydd yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

**Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae Rheoli'r Trysorlys yn allweddol er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd mewn perthynas ag anghenion hirdymor yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau fod asedau ar gael yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy hefyd er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn wynebu anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wnaethpwyd yn y tymor byr a'r tymor canolig. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'n rhaid i strategaeth a gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf sy'n cael ei gyllido trwy fenthyca, megis y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir drwy fenthyca, gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol. |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Yn aml, mae gweithgareddau rheoli trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf ar y cyd â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r rhaglen gyfalaf flynyddol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn, ac mae rhan o'r rhaglen honno'n ddibynnol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u hariannu trwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn cynorthwyo i wella hygyrchedd a galluogi amrywiaeth. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Adroddiad monitro statudol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthyca'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Fe wnaeth y TA ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd 2025. Mae unrhyw sylwadau oedd ganddynt wedi'u hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad lle bo'r angen. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025. Cyflwynir unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y cyfarfod. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Ddim yn berthnasol |

## F - Atodiadau:

Atodiad 1 - Rheoli Trysorlys - Adolygiad Canol Blwyddyn 2025/26
Atodiad 2 - Diweddariad Economaidd - Lluniwyd gan MUFG (Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys Allanol)
Atodiad 3 - Dangosyddion Economaidd Mawrth 2025 - 2027
Atodiad 4a - ch - Dadansoddiad o Fenthyciadau Allanol oedd yn Ddyledus ar 30 Medi 2025
Atodiad 5a - c - Dadansoddiad o Fuddsoddiadau ar 30 Medi 2025

## FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025
- Strategaeth Gyfalaf 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025

**ATODIAD 1**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd chwe mis cyntaf 2025/26 o ran ei berfformiad mewn perthynas â'r strategaeth rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â buddsoddi arian dros ben a benthyca i ariannu gwariant cyfalaf.

## 2. CYDYMFFURFIO Â GOFYNION ADRODD

**2.1.** Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Cod) a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus), mae'n rhaid cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn ystod y flwyddyn. Yr adolygiad canol blwyddyn yw un o'r adroddiadau hynny ac mae cyflwyno'r adroddiad hwn yn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion adrodd.

## 3. ADOLYGIAD O 2025/26 HYD AT 30 MEDI 2025 - FFACTORAU ALLANOL

**3.1.** Mae nifer o ffactorau nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli yn dylanwadu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor ac maent yn cael effaith sylweddol ar ei benderfyniadau ynghylch benthyca a buddsoddi.

### 3.2. Cyfraddau Llog

Mae lefel cyfraddau llog pan wneir penderfyniadau, a rhagolygon cyfraddau yn y dyfodol, yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys a gall ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor i fenthyca'n allanol ai peidio, cyfnod unrhyw fenthyciadau, pryd fydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiadau tymor hwy ac ymhle mae'r Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben.

Ar ddechrau 2025/26 roedd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 4.5%. Y darogan oedd y byddai'r gyfradd yn gostwng yn gymharol gyflym yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond nid yw chwyddiant wedi gostwng cyn gyflymed â'r disgwyl ac mae twf yn parhau'n gymharol isel. Gan fod lefelau cyflogau hefyd yn parhau'n uwch na chwyddiant, ond yn arafu, a chyda diweithdra'n codi i 5% ym mis Hydref 2025, ymddengys fod pwysau chwyddiant yn llacio. Fodd bynnag, mae Banc Lloegr wedi penderfynu bod yn bwyllog wrth ostwng cyfraddau llog, a chafwyd gostyngiad o 0.25% ym mis Mai 2025, a gostyngiad pellach o 0.25% ym mis Awst 2025.

Penderfynodd Banc Lloegr, o drwch blewyn, i gadw cyfraddau llog ar 4% ym mis Tachwedd 2025, ond mae disgwyl gostyngiad pellach o 0.25% ym mis Rhagfyr 2025, neu Chwefror 2026. Disgwylir gostyngiad pellach o 0.25% cyn diwedd y flwyddyn ariannol a rhagwelir y bydd cyfraddau'n parhau i ostwng yn araf yn ystod 2026/27 a 2027/28.

### 3.3. Economi'r DU

Mae economi'r DU yn parhau i weithredu o dan ddylanwad digwyddiadau byd-eang mawr sy'n effeithio ar economi'r byd, gan gynnwys parhad y rhyfel yn Wcráin a'r angen i wario mwy ar amddiffyn, ethol Arlywydd newydd yn yr Unol Daleithiau, yr Unol Daleithiau'n cyflwyno tollau uwch a chreu'r posibilrwydd y byddai economi'r byd yn arafu, yn ogystal â'i effaith ar brisiau olew ac ynni.

Yn ystod chwarter cyntaf 2025/26, gwelwyd twf o 0.3% yn economi'r DU a chafwyd twf o 0.2% yn ystod yr ail chwarter. Rhagwelir twf o 1.4% yn y cynnyrch domestig gros (GDP) a rhagwelir twf tebyg yn 2026, a chynnydd bychan yn unig yn 2027.

Mae Banc Lloegr wedi datgan eu bod yn credu fod chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Medi 2025, a bydd yn dechrau gostwng yn ystod trydydd chwarter 2025 a chyrraedd 3% yn gynnar y flwyddyn nesaf, cyn dychwelyd yn raddol tuag at y targed o 2% yn 2027.

Bydd perfformiad economi'r DU a'i effaith ar gyfraddau llog yn cael ei effeithio gan gyllideb y Canghellor ym mis Tachwedd 2025. Mae trethi'n debygol o godi a gallai hynny gael effaith negyddol ar chwyddiant a diweithdra.

**3.4.** Mae dadansoddiad economaidd mwy manwl a luniwyd gan gynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, MUFG, ynghlwm yn Atodiad 1. Mae rhagolwg o ddangosyddion economaidd hyd at fis Mawrth 2027 i'w weld yn Atodiad 2.

## 4. GWARIANT CYFALAF 2025/26

**4.1.** Mae gwariant cyfalaf yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor. Gellir ariannu gwariant cyfalaf naill ai:-

- ar unwaith drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) ac nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- drwy fenthyca: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

**4.2.** Ar ôl cwblhau'r cyfrifon drafft, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddwyn ymlaen y gyllideb nad oedd wedi cael ei gwario o 2024/25 i 2025/26 ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad alldro cyfalaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2025. Derbyniwyd arian cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn hefyd, a'i ychwanegu at y gyllideb gyfalaf. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr ychwanegiadau hyn yn ei gyfarfodydd ar 23 Medi 2025 a 25 Tachwedd 2025.

**4.3.** Mae Tabl 1 isod yn nodi manylion y rhaglen gyfalaf a ddiweddarwyd ar gyfer 2025/26, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn 2025:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Cyfalaf Diwygiedig 2025/26**

| Crynodeb | Cyllideb a Gymeradwywyd Mawrth 2025 yn cynnwys Llithriad | Cyllid Ychwanegol Chwarter 1 a 2 | Cyllideb Cyfalaf Diwygiedig fel ar Tachwedd 2025 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Tai - Gronfa Cyffredinol | 900,650 | 198,030 | 1,098,680 |
| Tai - CRT | 20,894,000 | 3,626,814 | 24,520,814 |
| Dysgu Gydol Oes | 1,666,791 | 1,904,082 | 3,570,873 |
| Economaidd ac Adfywio | 9,460,242 | 1,900,668 | 11,360,910 |
| Priffyrdd | 2,974,500 | 4,021,120 | 6,995,620 |
| Rheoli Gwastraff | 1,470,124 | - | 1,470,124 |
| Eiddo | 6,756,605 | 1,194,711 | 7,951,316 |
| Trawsnewid | 784,861 | - | 784,861 |
| Gwasanaeth Oedolion | 1,915,439 | - | 1,915,439 |
| **CYFANSWM** | **46,823,212** | **12,845,425** | **59,668,637** |
| | | | |
| **Cyllidir Gan** | | | |
| Grant Cyfalaf | 22,014,411 | 13,762,949 | 35,777,360 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 831,431 | - | 831,431 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,813,331 | - | 3,813,331 |
| Benthyca Digefnogaeth | 13,020,000 | - 9,338,353 | 3,681,647 |
| Cyfraniad Refeniw | 5,788,000 | 7,323,493 | 13,111,493 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,340,443 | 252,625 | 1,593,068 |
| Benthyciadau | 15,596 | 844,711 | 860,307 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **46,823,212** | **12,845,425** | **59,668,637** |

**4.4.** Mae crynodeb o'r rhaglen gyfalaf, y gwariant a ragwelir a'r cyllid ar 30 Medi 2025 i'w weld yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Gwariant a Ragwelir i gymharu gyda Cyllideb Blynyddol 25/26 ar 30 Medi 2025**

| Crynodeb | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (£) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragamceinir (£) | Amrwywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 1,099 | 842 | 77 | 1,099 | (257) | (23) |
| CRT Tai | 24,521 | 10,149 | 41 | 22,056 | (14,372) | (59) |
| Addysg | 3,571 | 1,123 | 31 | 3,571 | (2,448) | (69) |
| Economaidd ac Adfywio | 11,361 | 3,968 | 35 | 10,881 | (7,393) | (65) |
| Priffyrdd | 6,996 | 2,704 | 39 | 6,996 | (4,292) | (61) |
| Rheoli Gwastraff | 1,470 | - | 0 | 865 | (1,470) | (100) |
| Eiddo | 7,951 | 161 | 2 | 7,155 | (7,790) | (98) |
| Trawsnewid | 785 | 194 | 25 | 630 | (591) | (75) |
| Gwasanaeth Oedolion | 1,915 | 435 | 23 | 1,915 | (1,480) | (77) |
| **CYFANSWM** | **59,669** | **19,576** | **33** | **55,168** | **(4,501)** | **(8)** |
| **Cyllidwyd Gan:** | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 35,777 | - | | 34,692 | (1,085) | (3) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 831 | - | | 497 | (334) | (40) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,814 | - | | 3,797 | (17) | (0) |
| Benthyca Digefnogaeth | 3,682 | - | | 1,445 | (2,237) | (61) |
| Cyfraniad Refeniw | 13,111 | - | | 12,883 | (228) | (2) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,594 | - | | 993 | (601) | (38) |
| Benthyciadau | 860 | - | | 860 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **59,669** | **-** | | **55,167** | **(4,502)** | **(8)** |

## 5. EFFAITH AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR AR 30 MEDI 2025

**5.1.** Mae Atodiadau 3a - 3ch yn cynnwys dadansoddiad o Fenthyca Allanol Presennol y Cyngor.

**5.2.** Ni threfnwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, a balans cyfun yr holl fenthyciadau cyfredol ar 30 Medi 2025 oedd £121.898m. Amcangyfrifir y bydd rhaid allanoli £10m o fenthyca mewnol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan roi sefyllfa fenthyca a ragwelir o £131.895m, ynghyd â £25.033m o fenthyca mewnol. Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a amcangyfrifir felly yw £156.928m, ar sail rhagolygon o wariant a chyllid cyfalaf.

**Tabl 3**

**Rhagolwg o Fenthyca Mewnol ac Allanol hyd at 31 Mawrth 2026**

| **BENTHYCIADAU ALLANOL** | | |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans Agoriadol** | | **122,082** |
| | | |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | - | |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | - | |
| Benthyciadau yn Lle Benthyca Mewnol | 10,000 | |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd yn y Flwyddyn** | | **10,000** |
| | | |
| Ad-Dalu Benthyciadau yn y Flwyddyn | | - 187 |
| | | |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | | **131,895** |

| BENTHYCIADAU MEWNOL | | |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans Agoriadol** | | 30,203 |
| | | |
| Benthyciadau yn Lle Benthyca Mewnol | - 10,000 | |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | - | |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 6,102 | |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd yn y Flwyddyn** | | - 3,898 |
| | | |
| Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen | | - |
| | | |
| Ad-Dalu Benthyciadau yn y Flwyddyn | | 187 |
| | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | | - 1,459 |
| | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd | | - |
| | | |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | | **25,033** |
| | | |

### 5.3. Ad-dalu Dyledion

Yn ystod hanner cyntaf 2025/26, gwnaethpwyd cyfanswm o £9k o daliadau blynyddol ar fenthyciadau blwydd-dal y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a £178k ar fenthyciadau di-log Salix.

## 6. BUDDSODDIADAU

**6.1.** Cymeradwyodd y Cyngor y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ar 6 Mawrth 2025. Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, mae'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fel a ganlyn:-

- Diogelwch cyfalaf;
- Hylifedd;
- Enillion.

**6.2.** Roedd yr holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud gyda sefydliadau oedd yn bodloni'r statws credyd gofynnol a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac nid oedd gwerth y buddsoddiadau gyda'r sefydliadau hyn, ar unrhyw adeg, yn uwch na'r terfyn cymeradwy a nodir yn y strategaeth.

**6.3.** Mae Atodiadau 4a - 4c yn cynnwys gwybodaeth bellach am falansau arian parod a buddsoddiadau'r Cyngor.

**6.4.** Mae Tabl 4 isod yn dangos y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2025, ynghyd â rhagolwg o'r sefyllfa ar gyfer 2025/26:-

**Tabl 4**
**Llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2025**

| | Ar 30 Medi 2025 | Amcangyfrif i 31 Mawrth 2026 |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Gronfa Cyffredinol | 387,892 | 652,564 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 49,456 | 83,201 |
| Balansau Ysgolion | 39,975 | 67,251 |
| **Cyfanswm Llog Dderbyniwyd** | **477,322** | **803,016** |
| | | |

## 7. DANGOSYDDION DARBODUS

**7.1.** Mae’r Strategaeth Rheoli’r Trysorlys yn cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Mae Tabl 5 isod yn nodi’r sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd yn erbyn y dangosyddion a’r terfynau:

**Tabl 5**
**Rhagolwg o’r Sefyllfa ar Ddiwedd Chwarter 1 o gymharu â’r Strategaeth Rheoli’r Trysorlys**

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp y Dangosydd** | **Disgrifiad** | **Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys 2025/26** | **Amcangyfrif o’r Sefyllfa ar ddiwedd Ch 1** | |
| Fforddiadwyedd | Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net – Cronfa Gyffredinol | 2.60% | 1.55% | |
| | Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net - Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 10.03% | 12.65% | |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | Cronfa’r Cyngor a CRT | £154.390m | £156.928m | |
| **TERFYNAU AWDURDODEDIG** | | | | |
| Darbodus | Mae’n rhaid i’r ddyled gros fod yn is na’r GCC ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf | <171.070m | £121.895m | |
| Dyled Allanol | Terfyn Awdurdodedig | < £181.230m | £121.895m | |
| | Terfyn Gweithredol | < £171.230m | £121.895m | |
| Pryd fydd y Ddyled yn Aeddfedu | O dan 12 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.379m | £0.550m | 0.45% |
| | 12 mis ac o fewn 24 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.379m | £1.895m | 1.55% |
| | 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | <50% o gyfanswm y ddyled = £60.947m | £7.632m | 6.26% |
| | 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | <75% o gyfanswm y ddyled = £85.326m | £14.275m | 11.71% |
| | 10 mlynedd a mwy | 100% = £121.895m | £121.895m | 100.00% |

## 8. ACHOSION O FYND YN GROES I ARFERION RHEOLI TRYSORLYS Y MAE’N RHAID ADRODD ARNYNT

**8.1.** Mae’r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26 yn caniatáu i’r Cyngor fuddsoddi uchafswm o £10m mewn unrhyw fanc unigol nad yw’r llywodraeth yn berchen arno neu gymdeithas adeiladu unigol. Mae gan y Cyngor Gyfrif Galw gyda Banc Lloyds ac mae’r swm a gedwir yn y cyfrif hwnnw’n cael ei uchafu gan ei fod yn talu llog uwch na’r cyfrifon galw eraill sydd gan y Cyngor.

**8.2.** Ar 4 Mehefin 2025, balans y Cyfrif Galw Lloyds oedd £9.993m. Ar 5 Mehefin 2025, ychwanegwyd cyfanswm o £25,748 o log i’r cyfrif, ac roedd y balans yn codi i £10.019m o ganlyniad i hynny. Roedd y cyfanswm yn uwch na’r terfynau a nodir yn y Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys. Ar 23 Mehefin 2025, trosglwyddwyd £1m o’r cyfrif, gan olygu bod y balans yn gostwng i £9.019m. Yn dechnegol, mae hyn yn mynd yn groes i’r arferion rheoli trysorlys, ond nid oedd y Cyngor ar ei golled o ganlyniad i hyn.

## 9. CASGLIADAU

**9.1.** Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o ddefnyddio buddsoddiadau risg isel ac enillion isel, a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau costau llog cymaint â phosib.

**9.2.** Mae perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a bennwyd gan y Cyngor yn dangos fod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu rheoli, gan sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor, ac nid ydynt yn creu unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor mewn perthynas â chymryd benthyciadau nad ydynt yn fforddiadwy neu fenthyca gormod.

**9.3.** Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau mai dyma'r strategaeth fwyaf addas wrth symud ymlaen.

## Diweddariad Economaidd - Lluniwyd gan MUFG

- Yn ystod hanner cyntaf 2025/26 gwelwyd:
  - Cynnydd o 0.3% yn y GDP rhwng Ebrill a Mehefin 2025. Yn fwy diweddar, ni fu unrhyw dwf yn yr economi ym mis Gorffennaf, ac roedd trethi uwch ar fusnesau'n llesteirio twf.
  - Mae cyfradd 3 mis, o flwyddyn i flwyddyn (3m/bb) twf enillion cyfartalog, heb gynnwys bonws, wedi disgyn o 5.5% i 4.8% ym mis Gorffennaf.
  - Mae chwyddiant CPI wedi amrywio ond y lefel ym mis Medi oedd 3.8%, tra bod chwyddiant craidd wedi gostwng i 3.6%.
  - Torrodd Banc Lloegr gyfraddau llog o 4.50% i 4.25% ym mis Mai, ac yna i 4% ym mis Awst.
  - Amrywiodd enillion 10 mlynedd giltiau rhwng 4.4% a 4.8%, a'r ffigwr ar ddiwedd chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 4.70%.
- O safbwynt GDP, cafwyd dechrau ansefydlog i'r flwyddyn ariannol gyda gostyngiad o 0.3% fis ar fis mewn GDP gwirioneddol yn Ebrill, gan fod camau a gymerwyd gan fusnesau cyn i'r UDA gyflwyno tollau yn Ch1 (pan welwyd twf o 0.7% yn y GDP o gymharu â'r chwarter blaenorol) wedi pwyso ar weithgarwch. Er gwaetha'r rhesymau sylfaenol dros y gostyngiad, hwn oedd y gostyngiad cyntaf ers Hydref 2024 a'r gostyngiad mwyaf ers Hydref 2023. Er hynny, fe wnaeth yr economi wella ym mis Mai a Mehefin, felly gwelwyd twf o 0.3% ar ddiwedd y chwarter, o gymharu â'r chwarter cynt. Er hynny, mae'r 0.0% o newid fis ar fis yn y GDP gwirioneddol ym mis Gorffennaf yn siŵr o fod wedi creu rhywfaint o bryder, ac yn ddi-os, roedd cynnydd mewn trethi i fusnesau a gyflwynwyd ym mis Ebrill eleni wedi cyfrannu at lesteirio twf. Mae'n debygol fod yr amgylchedd wan dramor wedi cyfrannu at y gostyngiad fis ar fis o 1.3% mewn allbwn gweithgynhyrchu ym mis Gorffennaf. Dyma'r ail ostyngiad mawr mewn tri mis ac roedd y gyfradd 3mis/3mis o -1.1% yn is nag y bu yn ystod yr 20 mis diwethaf. Fe wnaeth y cynnydd o 0.1% fis ar fis mewn allbynnau gwasanaethau gynnal y gyfradd 3 mis/3 mis ar 0.4%, wedi'i gefnogi gan allbwn cryfach yn y sectorau iechyd a'r celfyddydau/adloniant. Wrth edrych ymlaen, bydd dyfalu parhaus ynghylch y posibilrwydd o godi trethi eto yng Nghyllideb yr Hydref ar 26 Tachwedd yn parhau i arafu twf GDP am gyfnod eto. Mae Capital Economics yn darogan twf o 1.3% mewn GDP yn 2025.
- Gan aros gyda'r farn am gyfeiriad yr economi yn y dyfodol, disgynnodd y Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) ar gyfer y DU o 53.5 yn Awst i 51.0 ym Medi. Gyrrwyd y gostyngiad yn bennaf gan y PMI gwasanaethau, lle bu gostyngiad o 54.2 i 51.9. Disgynnodd balans allbynnau'r PMI gweithgynhyrchu hefyd, o 49.3 i 45.4. Galw gwan o dramor (disgynnodd balans archebion allforion newydd am y pedwerydd mis ar y tro) oedd i gyfri am hynny, yn ogystal â chau ffatri Jaguar Land Rover ar 1 Medi yn sgil ymosodiad seiber, gan ostwng cynhyrchiant ceir ar draws cadwyn gyflenwi'r sector moduron. Mae'r PMIau yn awgrymu mai twf gwan yw'r gorau y gellir ei ddisgwyl pan ryddheir ffigyrau GDP Chwarter 3.
- Gan droi at werthiant yn y sector manwerthu, y cynnydd o 0.5% fis ar fis mewn cyfeintiau yn Awst oedd y trydydd cynnydd olynol o'i fath ac roedd yn cael ei yrru gan enillion ym mhob prif gategori, ac eithrio gwerthiant tanwydd, a welodd ostyngiad o 2.0% fis ar fis. Mae'n bosib bod y tywydd cynhesach na'r arfer wedi cynnal lefelau gwerthiant. Pe na fyddai lefelau gwerthiant yn codi ym mis Medi, byddai cynnydd o 0.7% o un chwarter i'r llall, o gymharu â chynnydd o 0.2% yn Chwarter 2.
- Gyda Chyllideb Tachwedd yn agosáu, mae sefyllfa arian cyhoeddus yn ymddangos yn wan. Roedd benthyciadau net y sector cyhoeddus ym mis Awst yn £18.0bn, gan olygu fod benthyca, bum mis i mewn i'r flwyddyn ariannol, £11.4bn yn uwch na rhagolwg yr OBR yn Natganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth. Mae'r gorwariant ar y mandad ariannol a ddewiswyd gan y Canghellor ar gyfer y gyllideb bresennol hyd yn oed yn fwy, ac mae yna ddiffyg cronnus o £15.3bn. Y ffaith fod derbyniadau cyfredol yn Awst yn is na rhagolwg yr OBR (gan £1.8bn) a bod gwariant presennol yn uwch (gan £1.0bn) sydd i gyfrif am hyn oll. Yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol, mae derbyniadau cyfredol wedi bod £6.1bn yn is (yn rhannol oherwydd bod derbyniadau treth incwm hunanasesu yn is na'r disgwyl) a chafwyd £3.7bn o wariant cyfredol ychwanegol (yn bennaf oherwydd budd-daliadau cymdeithasol a gwariant gan adrannau'r llywodraeth). Yn ogystal, yr hyn

sy'n bwysig iawn yn awr yw rhagolygon yr OBR a'u heffaith ar y gyllideb gyfredol yn 2029/30, oherwydd dyna pryd fydd mandad ariannol y Canghellor yn brathu. Fel canllaw cyffredinol, mae Capital Economics yn rhagweld diffyg o thua £18bn, gan olygu y bydd rhaid i'r Canghellor godi £28bn, yn bennaf trwy godi trethi, os yw'n dymuno cadw ei chlustog yn erbyn ei rheol o £10bn.

- Roedd yn amlwg bod y farchnad swyddi'n gwanhau yn y gwanwyn. Y gostyngiad o 109,000 fis ar fis yn y mesur cyflogaeth PAYE oedd y gostyngiad mwyaf (ac eithrio'r pandemig) ers dechrau cadw cofnodion, a'r seithfed gostyngiad mewn saith mis. Adolygwyd y newid misol, a'i ostwng, mewn pump o'r saith mis blaenorol hefyd, gyda gostyngiad o 33,000 yn Ebrill yn cael ei newid i ostyngiad o 55,000. Ond, yn fwy diweddar, adolygwyd y newid misol, a'i gynyddu, mewn saith o'r naw mis diwethaf, a chyfanswm y cynnydd oedd 22,000. Felly, yn hytrach na gostyngiad o 165,000 ers Hydref, credir bellach bod y gostyngiad mewn cyflogaeth PAYE yn is, sef 153,000. Er hynny, mae cyflogaeth PAYE wedi gostwng mewn naw o'r 10 mis ers i'r Canghellor gyhoeddi cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr a'r isafswm cyflog yn y gyllideb ym mis Hydref 2024. Roedd 728,000 o swyddi gweigion yn y tri mis hyd at Awst. Gwelwyd gostyngiad o 47% mewn swyddi gweigion, o gymharu â'r uchafbwynt yn Ebrill 2022. Mae hyn oll yn awgrymu bod y farchnad lafur yn parhau i lacio, ond yn fwy araf.

- Mae marchnad lafur mwy llac yn gyrru pwysau mwy meddal ar gyflogau. Mae cyfradd 3m/bb, twf enillion cyfartalog, heb gynnwys bonws, wedi disgyn o 5.5% i 4.8% ym mis Gorffennaf. Llithrodd y gyfradd ar gyfer y sector preifat o 5.5% i 4.7%, ac mae ar y trywydd cywir i gyd-fynd â rhagolwg Banc Lloegr ar gyfer Chwarter 3 (4.6% ar gyfer Medi).

- Disgynnodd chwyddiant CPI ychydig, o 3.5% yn Ebrill i 3.4% ym Mai, a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 5.4% i 4.7%, tra bod chwyddiant craidd wedi meddalu hefyd, o 3.8% i 3.5%. Ond, yn fwy diweddar, mae pwysau chwyddiant wedi ailymddangos, er bod y cynnydd diweddar mewn chwyddiant CPI wedi dod i stop am gyfnod ym mis Awst, pan arhosodd ar 3.8%. Llaciodd chwyddiant craidd unwaith eto hefyd, o 3.8% i 3.6%, a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 5.0% i 4.7%. Felly, mae'r sefyllfa ar ddiwedd hanner blwyddyn yn debyg i'r sefyllfa ar ddechrau'r cyfnod, ond, gan fod chwyddiant bwyd wedi codi i'w lefel uchaf, sef 5.1%, mewn 18 mis a chan fod aelwydydd yn disgwyl i chwyddiant yn aros ar ei lefel uchaf mewn chwe blynedd, mae'n bosib y bydd rhaid gweld llacio pellach yn y farchnad lafur a thwf gwannach mewn cyflogau os yw chwyddiant yn y DU am ostwng i lai na 2.0% erbyn 2027.

- Problem hollbresennol yn ystod y chwe mis diwethaf oedd y pwysau a roddwyd ar enillion giltiau sydd â dyddiadau ad-dalu yn y tymor canol a'r tymor hwy. Symudodd enillion ar giltiau 10 mlynedd i'r ochr yn ystod ail chwarter 2025, gan godi o 4.4% ddechrau Ebrill i 4.8% ganol Ebrill, yn dilyn ansefydlogrwydd yn y farchnad bondiau fyd-eang ehangach o ganlyniad i'r cyhoeddiad ynghylch tollau a wnaed gan yr Unol Daleithiau ar y "Diwrnod Rhyddhau", cyn llacio eto wrth i densiynau masnach ddechrau lliniaru. Erbyn diwedd Ebrill, roedd enillion ar giltiau 10 mlynedd wedi dychwelyd i 4.4%. Ym mis Mai, cafwyd cynnydd arall oherwydd pryderon bod chwyddiant yn parhau'n uchel a newid yn y llwybr disgwyliedig ar gyfer cyfraddau llog, a gwelwyd enillion giltiau 10 mlynedd yn amrywio rhwng 4.6% a 4.75% trwy'r rhan fwyaf o fis Mai, ond wrth i densiynau masnachu barhau i lacio ac wrth i'r marchnadoedd, yn gynyddol, ddechrau caniatáu ar gyfer polisi ariannol llacach, dechreuodd enillion 10 mlynedd ostwng, a'r gyfradd ar ddiwedd Chwarter 2 oedd 4.50%.

- Yn fwy diweddar, cododd enillion ar giltiau 10 mlynedd o 4.46% i 4.6% ddechrau Gorffennaf gan fod pryderon ariannol wedi cynyddu yn sgil gwrthdroi toriadau mewn gwariant ac ansicrwydd ynghylch dyfodol Canghellor Reeves. Er mai am gyfnod byr yn unig y gwelwyd y cynnydd, roedd yn tynnu sylw at sefyllfa ariannol fregus y DU. Mewn oes o ddyledion uchel, cyfraddau llog uchel a thwf GDP isel, mae'r marchnadoedd bellach yn fwy sensitif i risgiau ariannol nag yr oedden nhw cyn y pandemig. Yn ystod Awst, gwelwyd cynnydd mawr yn y giltiau â dyddiadau ad-dalu hir oedd yn cael eu gwerthu, gyda chynnydd o 22 pwynt sylfaen, ac erbyn diwedd y mis, roedd y gyfradd ar ei lefel uchaf mewn 27 mlynedd, sef 5.6%. Er bod enillion wedi llacio ers hynny, roedd y gwerthiant ar y marchnadoedd wedi'i yrru gan bryderon buddsoddwyr ynghylch twf yn yr anghydbwysedd rhwng cyflenwad a galw, yn deillio o anesmwythyd ynghylch diffyg cyfnerthiad ariannol a gostyngiad yn y galw gan brynwyr traddodiadol sy'n prynu bondiau â dyddiadau ad-dalu hir, megis cronfeydd pensiwn. Ar gyfer giltiau 10 mlynedd, erbyn diwedd Medi, mae cyndynrwydd chwyddiant i ostwng, data gweithgarwch gwydn a pholisi Banc Lloegr o godi cyfraddau llog i reoli chwyddiant, yn golygu bod enillion wedi aros yn uchel, ar 4.70%.

- Gwelwyd cwymp sylweddol yn yr FTSE 100 yn dilyn cyhoeddiad tollau'r Unol Daleithiau ar “Ddiwrnod Rhyddid”, gyda gostyngiad o fwy na 10% yn ystod wythnos gyntaf Ebrill - o 8,634 ar 1 Ebrill i 7,702 ar 7 Ebrill. Fodd bynnag, gan fod y rhyfel masnach wedi tawelu ac yn sgil enillion corfforaethol cryf, dechreuodd y sefyllfa adfer yn gyflym ddiwedd Ebrill. O ganlyniad, ar ddiwedd chwarter 2 roedd yr FTSE 100 ar 8,761, tua 2% yn uwch na’i werth ar ddiwedd chwarter 1, a dros 7% yn uwch na’i lefel ar ddechrau 2025. Ers hynny, gwelodd yr FTSE 100 gynnydd pellach o 4% ym mis Gorffennaf, y cynnydd misol cryfaf ers Ionawr, ac roedd ei berfformiad yn well na’r S&P 500. Cynyddodd prisiau cyfranddaliadau yn sgil enillion corfforaethol cryf a chynnydd yn y trafodaethau masnach (UDA-UE, DU-India), gyda’r mynegai’n cyrraedd record o 9,321 ganol Awst, wedi’i yrru gan y gobaith o heddwch yn Wcráin ac arwyddion o gymodi gan Powell, Cadeirydd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau. Roedd Medi yn fwy ansefydlog a chaeodd yr FTSE 100 ar 9,350, 7% yn uwch nag ar ddiwedd Chwarter 1 ac 14% yn uwch ers dechrau’r flwyddyn. Mae perfformiad yn y dyfodol yn debygol o gael ei effeithio gan y graddau y bydd archwaeth risg buddsoddwyr byd-eang yn parhau, toriadau yng nghyfraddau’r Gronfa Ffederal, gwytnwch yn economi’r Unol Daleithiau ac optimistiaeth ynghylch deallusrwydd artiffisial. Bydd punt wannach hefyd yn rhoi hwb i’r mynegai gan ei fod yn cynyddu enillion tramor.

### Cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) 8 Mai, 19 Mehefin, 7 Awst, 18 Medi 2025


- Cyfarfu’r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) bedair gwaith yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Ym mis Mai, penderfynodd y Pwyllgor dorri’r Gyfradd Banc o 4.50% i 4.25% ac ni wnaed unrhyw newidiadau ym mis Mehefin. Yn y bleidlais ym mis Mehefin, pleidleisiodd tri aelod o’r Pwyllgor (Dhingra, Ramsden a Taylor) o blaid torri’r gyfradd i 4.00% ar unwaith, oherwydd bod amodau’r farchnad lafur yn llacio. Roedd y chwe aelod arall yn fwy gofalus, gan eu bod wedi amlygu’r angen i gadw llygaid am “arwyddion o alw gwan”, “cyfyngiadau cyflenwi” a “disgwyliadau chwyddiant” uwch, yn bennaf oherwydd bod prisiau bwyd yn codi. Trwy ailadrodd y dywediad a ddefnyddir yn gyson, “graddol a gofalus”, roedd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn parhau i awgrymu y byddai cyfraddau llog yn disgyn ymhellach.

- Yn Awst, cafodd y gyfradd llog ei thorri unwaith eto. Fodd bynnag, roedd y bleidlais 5 i 4 o blaid torri’r gyfradd i 4% yn amlygu’r gwahanol safbwyntiau o fewn y Pwyllgor Polisi Ariannol, ac roedd y sylwebaeth i gyd-fynd â’r penderfyniad yn nodi fod y penderfyniad yn un “agos iawn”, ac yn ategu y byddai unrhyw doriad yn y cyfraddau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn “raddol a gofalus”. Yn y pendraw, defnyddiodd y Llywodraethwr, Bailey, ei bleidlais fwrw o blaid torri’r gyfradd, ond gan fod disgwyl i fesur chwyddiant y CPI gyrraedd o leiaf 4% yn ddiweddarach eleni, bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn wyliadwrus rhag torri cyfraddau eto hyd nes bydd chwyddiant yn dechrau gostwng tuag at 2%.

- Nid yw Banc Lloegr yn rhagweld y bydd y CPI yn cyrraedd 2% tan ddechrau 2027, a gyda chyflogau’n dal i godi gan ychydig llai na 5%, nid oedd yn syndod fod y cyfarfod ym mis Medi wedi pleidleisio 7-2 o blaid cadw’r gyfradd ar 4% (pleidleisiodd Dhingra a Taylor o blaid gostyngiad pellach o 0.25%).


- Manteisiodd y Banc hefyd ar y cyfle i gyhoeddi y byddai’n lleihau ei fantolen gan £70bn yn unig yn ystod y 12 mis nesaf, yn hytrach na £100bn. Mae ailadrodd yr ymadrodd bod torri cyfraddau yn “raddol a gofalus” yn briodol yn awgrymu bod y Banc yn dal i gredu y bydd cyfraddau llog yn gostwng, ond, o bosib, ddim cyn Chwefror, ac mae hyn yn cyd-fynd â’n barn ni a barn gyffredinol y farchnad.

**ATODIAD 3**




Dangosyddion Economaidd Mawrth 2025 i Mawrth 2027
Economic Indicators March 2025 to March 2027
7.00%
6.00%
5.00%
4.00%
3.00%
2.00%
1.00%
0.00%
03-2025
06-2025
09-2025
12-2025
03-2026
06-2026
09-2026
12-2026
03-2027
Cyfradd Banc / Bank Rate (%)
Chwyddiant / Inflation
Cyfradd Twf / Growth Rate
Cyfradd PWLB 5 ml / 5yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 10ml / 10yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 25ml / 25yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 50ml / 50yr PWLB rate (%)


**ATODIAD 4a**


Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 fesul Blwyddyn Ad-Dalu
Total Loans Outstanding as at 30 September 2025 By Repayment Year
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£30,000,000
£25,000,000
£20,000,000
£15,000,000
£10,000,000
£5,000,000
£0
2025/2026
2026/2027
2027/2028
2028/2029
2029/2030
2030/2031
2031/2032
2032/2033
2033/2034
2034/2035
2035/2036
2036/2037
2037/2038
2038/2039
2039/2040
2040/2041
2042/2043
2043/2044
2044/2045
2045/2046
2050/2051
2052/2053
2054/2055
2055/2056
2056/2057
2057/2058
2059/2060
2064/2065
2066/2067
2068/2069

**ATODIAD 4b**



Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025
Oustanding Loan Balance as at 30 September 2025
£140,000,000
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
01/01/2026 … 01/01/2076

**ATODIAD 4c**




Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 fesul Math o Fenthyciad
Total Loan Outstanding as as 30 September 2025 By Loan Type
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£140,000,000
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
4,214,590.53
134,188.23
117,546,078.26
Salix
Flwydd-Dal / Annuity
Aeddfedrwydd / Maturity


**ATODIAD 4ch**


Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 Fesul Gronfa
Total Loan Outstanding as as 30 September 2025 By Fund
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
21,168,714.00
4,214,590.53
96,511,552.49
Prynu Allan CRT / HRA Buy Out
Gronfa Cyffredinol / General Fund
Ar y Cyd CC a CRT / Joint GF and HRA


**ATODIAD 5a**


Gwerth Buddsoddiadau 2025/26 fesul Fath o Fuddsoddiad ar Diwedd Pob Chwarter
Value of 2025/26 Investments By Investment Type at End of Each Quarter
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
£16,000,000
£14,000,000
£12,000,000
£10,000,000
£8,000,000
£6,000,000
£4,000,000
£2,000,000
£0
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025
Math o Fuddsoddiad / Investment Type
Cyfrif Galw / Call Account
Buddsoddiad Banc Sefydlog Tymor Byr / Short Term Fixed Bank Investment
Cyfrif Cyfredol / Current Account

**ATODIAD 5b**


Gwerth Buddsoddiad fesul Cyfranogwr fesul Chwarter 2025/26
Value of Investment per Counterparty per Quarter for 2025/26
£10,000,000
£9,000,000
£8,000,000
£7,000,000
£6,000,000
£5,000,000
£4,000,000
£3,000,000
£2,000,000
£1,000,000
£0
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
Bank of Scotland
Lloyds
Nat West
Nationwide
Santander
Local Authority
Banc / Bank
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025

ATODIAD 5c


Canran y Buddsoddiad a Ddelir ym Mhob Math o Fuddsoddiad Fesul Chwarter 2025/26
Percentage of Investment Held in Each Investment Type per Quarter 2025/26
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025
Cyfrif Galw / Call Account
Buddsoddiad Banc Sefydlog Tymor Byr / Short Term Fixed Bank Investment
Cyfrif Cyfredol / Current Account

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 16 Rhagfyr 2025 |
| Pwnc: | Cynllun Strategol Digidol Addysg (2026-2031) |
| Aelod(au) portffolio: | Dafydd Roberts |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Aaron Evans – Cyfarwyddwr Addysg |
| Awdur yr adroddiad: | Rhys Williams – Arweinydd Strategol (Cynradd) |
| Aelodau lleol: | Pob Aelod Etholedig |

A – Argymhellion a rhesymau

**A1** Mabwysiadu Cynllun Strategol Digidol Addysg newydd (2026-2031)

**Rhesymau**
Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn cyfrannu at adeiladu system addysg fodern, sy'n ymateb i amcan addysg o fewn Cynllun y Cyngor sef *'Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol'*. Mae'n cyd-fynd â Chynllun Strategol Digidol y Cyngor ac yn cefnogi mynediad cyfartal, cynhwysiant digidol, a datblygiad cymunedol.

Mae pump maes blaenoriaeth allweddol i'r Cynllun sef:

- **Cynaliadwyedd:** Mae cynaliadwyedd yn sicrhau bod y cynllun yn hyfyw dros amser, gyda chyllid pwrpasol a chynllunio TG i gynnal gwasanaethau o safon a chefnogi arloesi digidol
- **Cysylltedd:** Mae cysylltedd cyflym a dibynadwy yn allweddol i sicrhau mynediad di-dor i adnoddau digidol, cefnogi arholiadau ar-lein, a chreu amgylchedd dysgu modern sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.
- **Cydweithio:** Mae cydweithredu strategol yn galluogi ysgolion i esblygu yn sgil datblygiadau technolegol, safoni technoleg a chymwysiadau, a sicrhau dysgu a chymorth proffesiynol priodol trwy fodel cydweithio pwrpasol.
- **Dysgu Proffesiynol:** Mae dysgu proffesiynol yn allweddol i sicrhau bod athrawon yn meddu ar sgiliau digidol cadarn, gan eu galluogi i addasu i dechnolegau newydd, defnyddio data i wella addysgu, a rhannu arferion gorau. Mae hyn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu arloesol sy'n diwallu anghenion myfyrwyr.
- **Diogelu data a gwydnwch digidol:** Mae diogelu data yn hanfodol i sicrhau diogelwch dysgwyr, athrawon a staff ar-lein, amddiffyn systemau a dyfeisiau ysgolion, a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae hyn yn creu amgylchedd digidol ddiogel sy'n cynnal ymddiriedaeth ac uniondeb y gwasanaeth.

Bydd Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031 yn hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor drwy sicrhau bod datblygiadau digidol yn gynaliadwy, yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cryfhau diogelu, yn galluogi atebolrwydd a chyfathrebu effeithiol, ac yn gyrru moderneiddio er mwyn darparu gwasanaethau addysg sy'n deg, diogel ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Er mwyn cymeradwyo y Cynllun Strategol |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Mae'r cynllun yn gyson â chynnwys Cynllun y Cyngor a Chynllun Strategol Digidol y Cyngor ac yn cefnogi ei amcanion. Mae'r Cynllun Strategol yn rhannu gweledigaeth ar gyfer cynhwysiant digidol, datblygu sgiliau, seilwaith cadarn, diogelwch, arloesedd, a chydweithio. Mae'r cyswllt yma yn sicrhau bod addysg yn rhan o'r trawsnewid digidol ehangach sy'n digwydd ar lefel awdurdod lleol a chenedlaethol. |

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Mae'r cynllun yn ceisio defnyddio cyllid yn effeithlon ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol. Er bod y Cyngor wedi clustnodi swm i ariannu'r cynllun yn y dyfodol, mae'n annhebygol y bydd yr arian sydd wedi'i glustnodi hyd yma yn ddigonol. Felly, bydd angen ychwanegu at y gronfa, ond bydd hyn yn heriol o ystyried y sefyllfa ariannol anodd y mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd. |

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031 yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad digidol hirdymor drwy sicrhau seilwaith dibynadwy, datblygu sgiliau digidol athrawon a dysgwyr, a hyrwyddo cynhwysiant. Mae'r pwyslais ar gynaliadwyedd ariannol yn galluogi gweithredu effeithiol dros amser, tra'n paratoi dysgwyr ar gyfer swyddi sy'n gynyddol ddibynnol ar dechnoleg. |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Drwy fuddsoddi mewn seilwaith digidol rydym yn osgoi costau pellach yn y dyfodol. |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Mae'r cynllun strategol wedi alinio gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru. |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Rydym yn ymgysylltu ag ysgolion wrth ddatblygu’r Cynllun Strategol. |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Mae’r cynllun strategol yma yn ymdrechu i sicrhau bod gan bob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu leoliad, fynediad cyfartal at adnoddau digidol. Trwy feithrin sgiliau digidol ymhlith disgyblion a staff, mae'r cynllun strategol yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Mae’r cynllun yn sicrhau darpariaeth dyfeisiau digidol modern a chysylltedd bwrpasol ar gael i ysgolion, gan leihau’r bwlch digidol dysgwyr. Mae’n cefnogi pob dysgwr (gan gynnwys y rhai difreintiedig) i gael mynediad at adnoddau addysg ar-lein, gan roi’r un cyfle i bawb i lwyddo yn yr ysgol, waeth beth yw eu cefndir economaidd. |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| Rydym yn sicrhau mynediad cyfartal drwy’r Gymraeg a’r Saesneg. |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Ystyriwyd y Cynllun Strategol gan y Prif Weithredwr a’r Tîm Arweinyddiaeth (TA) cyn ei gyflwyno i’r Pwyllgor. Mae sylwadau’r TA wedi’i hymgorffori yn y Cynllun Strategol. |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Mae’r Swyddog Adran 151 yn aelod o’r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi’u hystyried ynghyd â sylwadau aelodau’r TA. |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae’r Swyddog Monitro yn aelod o’r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi’u hystyried ynghyd â sylwadau aelodau’r TA. |
| 4. Adnoddau Dynol | |
| 5. Eiddo | |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Ysgrifennwyd y Cynllun Strategol ar y cyd â’r gwasanaeth TGCh |
| 7. Caffael | |
| 8. Sgriwtini | |
| 9. Aelodau lleol | |

F – Atodiadau

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Cynlllun Strategol Digidol ar gyfer Ysgolion 2022-2024

Adroddiad diwedd cyfnod Cynllun Strategol Digidol ar gyfer Ysgolion 2022-2024
*Awduron – Aaron Evans (Cyfarwyddwr Addysg) a Mathew Henshaw (Prif Swyddog Digidol)*

Cynllun Strategol Digidol 2024-2029

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Ynys Môn
The Isle of Anglesey



# Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg /

This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair

Mae technoleg ddigidol yn hanfodol mewn addysg oherwydd ei bod yn cynnig adnoddau dysgu cyfoethocach, yn hyrwyddo cydweithredu a chyfathrebu, ac yn darparu hyblygrwydd a chyfleustra. Mae hefyd yn helpu disgyblion a myfyrwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol yr 21ain ganrif megis llythrennedd digidol, a datrys problemau.

Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd a chymuned dysgu digidol deinamig a chynhwysol i holl ddysgwyr a staff ysgolion Ynys Môn.

Trwy ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, datblygiad seilwaith, a rheoli dyfeisiau cadarn, ein nod yw arfogi ein hysgolion â'r offer a'r adnoddau angenrheidiol i ffynnu mewn byd cynyddol ddigidol. Bydd cydweithio gydag ysgolion yn hanfodol wrth ddarparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau integreiddio llwyddiannus technolegau digidol yn ein harferion addysgol.

Mae meddylfryd "Tîm Môn" yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Trwy barhau i gydweithio, rydym mewn sefyllfa dda i allu llwyddo yn y bennod nesaf o'n taith ddigidol.





Cynghorydd Robin Williams
**Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad y Cwsmer**



Cynghorydd Dafydd Roberts
**Deilydd Portffolio Addysg**



Mathew Henshaw
**Prif Swyddog Digidol**



Aaron C Evans
**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**

# Pam mae angen Cynllun Strategol Digidol Addysg?



Ein nod yw creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.

Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn chwarae rhan allweddol yn y weledigaeth ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i adeiladu system addysg fodern, sy'n addas ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol—lle mae gan bob ysgol y dechnoleg, y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i roi'r cychwyn gorau posibl i ddysgwyr.

Mae'r cynllun strategol hwn yn cyd-fynd â Cynllun Strategol Digidol y Cyngor, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan trigolion ac ymwelwyr fynediad at wasanaethau o ansawdd uchel trwy sianeli digidol a thraddodiadol.

Trwy integreiddio'r Cynllun Strategol Digidol Addysg gyda chynllun digidol ehangach y cyngor, mae'r cyngor yn anelu i gefnogi anghenion addysgol tra hefyd yn mynd i'r afael â gofynion digidol ehangach ein dinasyddion.

Gyda chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru, mae'r cynllun strategol hon yn adeiladu ar y momentwm presennol i sicrhau bod ysgolion Ynys Môn yn barod ar gyfer cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

# Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg?



1. **Disgyblion**: Sicrhau bod mynediad at offer a chyfryngau digidol modern i wella profiad dysgu.

2. **Gweithwyr Addysg**: Darparu'r seilwaith digidol a'r cymorth angenrheidiol i integreiddio technoleg yn effeithiol i dulliau addysgu.

3. **Ysgolion**: Hwyluso trawsnewid digidol parhaol i greu amgylchedd dysgu mwy effeithlon a chyfranogol.

4. **Rhieni a Gwarcheidwaid**: Cadw'n wybodus ac yn rhan o addysg eu plant trwy ddulliau digidol.

Mae'r cynllun strategol hwn hefyd yn cyd-fynd â nodau ehangach Cynllun Strategol Ddigidol y Cyngor, sy'n anelu at sicrhau bod trigolion a phawb sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gallu cael mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel trwy amrywiaeth o sianeli digidol a thraddodiadol.

Data cywir hyd at 12/03/2025 ac data PLASC 2025.



# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r cyngor a'r Ynys.


Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.






[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)](Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales))

# Meysydd blaenoriaeth allweddol

Tudalen 51

- Cynaliadwyedd
- Cysylltedd
- Cydweithio
- Dysgu proffesiynol
- Diogelu data a gwydnwch digidol

# Cynaliadwyedd

## Pam mae hyn yn bwysig?

Trwy ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol, gall Cynllun Strategol Digidol Addysg gyflawni ei nodau o wella addysg, cefnogi cynhwysiant, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y dyfodol mewn modd dibynadwy a chyson.

Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yn gosod y fframwaith cynaliadwyedd ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau fod sail gadarn ariannol i gynnal gwasanaeth o’r radd uchaf bosib.

Sicrhau fod capasiti TG ar gael i gefnogi arloesi digidol yn ein hysgolion a pharatoi ein dysgwyr i ddyfodol digidol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Sicrhau bod y cynllun strategol yn gynaliadwy yn ariannol.
- Sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon i gefnogi mentrau digidol presennol ac yn y dyfodol.
- Adnabod unrhyw grantiau ychwanegol gall fod ar gael i gefnogi'r gwaith yma ac manteision arnynt.
- Defnyddio brosesau caffael y Cyngor yn effeithiol i sicrhau gwerth gorau am arian a sicrhau cydymffurfiaeth.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cynllun cyllideb manwl sy'n amlinellu'r holl gostau disgwyliedig ac yn defnyddio arian yn strategol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau cychwynnol mewn seilwaith digidol, cynnal a chadw parhaus, a gwelliannau yn y dyfodol.
- Nodi a sicrhau ffynonellau cyllido amrywiol, megis grantiau llywodraeth, partneriaethau sector preifat, a mentrau codi arian cymunedol.
- Parhau i ddatblygu cydweithio effeithiol, yn fewnol yn y Cyngor a gyda rhanddeiliaid allanol, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ag effeithlon a adnoddau
- Prynu drwy ddilyn prosesau caffael priodol.

# Cysylltedd

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ysgolion angen mynediad cyflym, rhwydd, gwydn a dibynadwy at adnoddau a data.

Mae'r galw ar rwydweithiau wedi cynyddu'n gyflym ac mae'n parhau i wneud, ac felly mae'n hanfodol bwysig er mwyn cwrdd â'r anghenion addysg digidol presennol ond hefyd er mwyn diogelu anghenion y dyfodol.

Cefnogi ysgolion wrth paratoi at arholiadau ar-lein gyda datrysiadau rheolaeth cadarn sydd yn cydfynd efo disgwyliadau a safonau digidol Cenedlaethol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Darparu ac yn monitro seilwaith rhwydwaith sy'n ddigonol ar gyfer pob ysgol.
- Buddsoddi i uwchraddio lled band ysgol lle bo'n briodol.
- Adolygu prosesau sydd eisoes ar waith i ddiogelu ein dysgwyr e.e. Smoothwall a sicrhau eu bod yn cael eu datblygu'n barhaus yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Cefnogi ysgolion gydag offer i ddiogelu dysgwyr a chefnogi ysgolion i weithredu datrysiad yn unol â'r rhaglen EdTech e.e. Senso fel offeryn rheoli ystafell ddosbarth.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio systemau rheoli i safoni'r profiad i bawb.
- Cymryd mantais o dechnolegau newydd.
- Defnyddio'r gwasanaeth/llwyfan diogelu cenedlaethol i sicrhau mynediad digidol i'r rhyngrwyd.
- Ymrwymo i gyflawni gwelliannau parhaus i'r rhwydwaith.
- Datblygu mannau diogel er mwyn storio seilwaith rhwydweithiau.
- Adolygu defnydd lled band ysgolion yn rheolaidd ac fel rhan o'r adolygiad CLG blynyddol
- Cefnogi ysgolion gyda defnyddio offer rheoli ystafell ddosbarth yn unol â'r rhaglen EdTech.

# Cydweithio

## Pam mae hyn yn bwysig?

Trwy ganolbwyntio ar gydweithio strategol o fewn y Cyngor a gyda rhanddeiliaid allanol, bydd y Cyngor yn sicrhau datblygiad a gwelliannau er mwyn i ysgolion esblygu a dal i fyny â'r datblygiadau technolegol diweddaraf.

Gydag ysgolion yn cydweithio'n agosach â'r model ysgol i ysgol, mae'r cyfleoedd i safoni technoleg, cymwysiadau a chyflwyniad o dechnoleg ddigidol mewn ysgolion yn sicrhau bod dysgu a chymorth proffesiynol priodol ar gael.

Mae arbenigedd o fewn y Cyngor yn ogystal ac ymarferwyr o fewn ein ysgolion. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol ein bod yn dysgu o brofiadau a chydweithio er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau prin.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Hwyluso a chefnogi ysgolion i fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu eu strategaeth dysgu digidol a chynaliadwyedd eu hunain.
- Adeiladu ar y rhwydwaith cydweithio presennol i ddatblygu rôl y cydlynwyr digidol o fewn pob ysgol yn ffurfiol.
- Datblygu cyfathrebu a chydweithio strategol o fewn dalgylchoedd yn seiliedig ar fframwaith Ysgolion fel Sefydliadau Sy'n Dysgu.
- Datblygu arweinwyr o fewn ein ysgolion all arwain yn lleol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cyd-dealltwriaeth rolau a chyfrifoldebau ysgolion a'r Cyngor
- Hwyluso cydweithio drwy fforymau tymhorol TGCh.
- Hyrwyddo gwaith clwstwr Hwyluswyr Dysgu Digidol drwy gefnogi cydweithio rhwng ysgolion
- Adolygu'n rheolaidd i ymateb i dechnoleg a datrysiadau newydd.
- Ysgolion yn rhannu arferion gorau ac adborth drwy'r Fforwm TG.
- Cydweithio agosach o fewn y Cyngor gan adolygu trefniadau presennol a sefydlu Grŵp Llywio Addysg-Digidol gyda llywodraethiant clir a phwrpasol.

# Dysgu Proffesiynol

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae staff ysgolion â sgiliau digidol cryf yn gallu addasu'n gyflym i dechnolegau newydd ac yn eu hymgorffori yn eu dulliau addysgu, sydd yn eu galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol âg eraill, a rannu arferion gorau a dulliau addysgu arloesol.

Mae datblygiad parhaus sgiliau digidol hefyd yn cyfrannu at dwf proffesiynol staff ysgolion, gan eu gwneud yn fwy hyderus a chymwys yn eu rolau, sy'n arwain at foddhad swydd. Hefyd, gall athrawon gasglu a dadansoddi data perfformiad myfyrwyr, gan helpu i nodi bylchau dysgu a theilwra'r addysgu i ddiwallu anghenion unigol myfyrwyr.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cydweithio gyda rhanddeiliaid ac ysgolion i baratoi rhaglenni dysgu proffesiynol addas i bwrpas
- Llunio trefn adborth a gwerthuso ar y cyd ag ysgolion a chlystyrau.
- Sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei defnyddio ar y rhaglen EdTech Genedlaethol.
- Cysoni meddalwedd a chaledwedd fel gallwn drefnu dysgu proffesiynol ar eu cyfer.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Gweithredu rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymwyseddau digidol.
- Darparu cefnogaeth barhaus trwy ganllawiau dysgu digidol, mynediad at adnoddau ar-lein, a thimau cymorth TG pwrpasol.
- Sefydlu cymunedau ymarfer lle gall staff ysgolion rannu profiadau, arferion gorau, a dulliau addysgu arloesol.
- Cynnig anogaeth fel ardystiadau, credydau dysgu proffesiynol, a rhaglenni cydnabyddiaeth i gymell staff ysgolion wella eu sgiliau digidol.
- Annog defnyddio offer digidol ar draws amrywiaeth o bynciau trwy eu halinio â nodau'r cwricwlwm ac amcanion dysgu.
- Asesu effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi sgiliau digidol yn rheolaidd trwy adborth gan athrawon a gwerthusiadau o ganlyniadau myfyrwyr.

# Diogelu data a gwydnwch digidol

## Pam mae hyn yn bwysig?

I ofalu bod dysgwyr, athrawon a staff yn ddiogel ar-lein.

I sicrhau bod data, systemau a gwasanaethau ysgolion yn ddiogel.

I reoli ac amddiffyn integredd dyfeisiadau a chyfarpar.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018, rhaid i ysgolion feddu ar fesurau technegol a diogelwch priodol.

Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod wedi mabwysiadu a'u bod yn cydymffurfio'n iawn gyda pholisïau diogelu data, yn benodol, y Polisi Diogelu Data Ysgolion a Pholisi Diogelu Gwybodaeth Ysgolion.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cryfhau diogelwch TGCh drwy gynllunio rhagweithiol.
- Cryfhau a sicrhau fod prosesau cadarn mewn lle ar gfyer rheoli mynediad a llywodraethiant i diogelwch data.
- Diogelu rhwydweithiau ysgolion gyda seilwaith cadarn.
- Sicrhau bod trefniadau ar gyfer ffiltro cynnwys yn addas i bwrpas.
- Amgryptio dyfeisiau a sicrhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch.
- Sicrhau mynediad diogel i wasanaethau craidd.
- Cefnogi trawsnewid digidol drwy fentrau
- Rheoli risgiau TG a chryfhau adferiad ar ôl digwyddiadau.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaengynllunio pob newid gyda mesurau diogelwch priodol.
- Symud data ysgolion i Hwb SharePoint.
- Dadgomisiynu storfa leol a mudo data'n ddiogel i'r cwmwl.
- Gosod muriau tân a rheolaethau mynediad ar rwydweithiau.
- Gweithredu system ffiltro cynnwys sy'n seiliedig ar y cwmwl.
- Uwchraddio ac amgryptio dyfeisiau lle bo angen.
- Defnyddio dilysiad cadarn ar gyfer mynediad staff.
- Gweithredu mentrau digidol mewn partneriaeth â Digi 360 Cymru.
- Sefydlu prosesau adfer a rheoli bygythiadau TGCh.

# Llywodraethu: Monitro a gwerthuso

Byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei gyflawni. Bydd y trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniant a'r strwythur er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd Grŵp Llywio'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro'r cynllun strategol. Bydd y Grŵp Llywio yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth – Cyfalaf a Digidol.
Bydd unrhyw brosiectau penodol yn dilyn y Fframwaith Gofynion Busnes Digidol.
Bydd ysgolion yn cael cyfle i ddarparu adborth drwy'r Fforwm TGCh yn flynyddol.



Bydd cynnydd yn cynnwys gwybodaeth am weithredoedd, canlyniadau a'r effaith gan amlygu llwyddiannau a materion.

Bydd adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygiad o'r cynllun strategol yn cael ei gwblhau.

This page is intentionally left blank

V2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 16/12/2025 |
| Pwnc: | Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff |
| Aelod(au) portffolio: | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| Awdur yr adroddiad: | Meirion Edwards, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff |
| Aelodau lleol: | Pob Aelod Etholedig |

A – Argymhellion a rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:

**1.** Cymeradwyo proses ymgynghori ar sut y gallai'r gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff newid yn y dyfodol i helpu i gyrraedd targedau ailgylchu statudol o 70%.

**2.** Cymeradwyo'r cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori (gweler Atodiad 1).

**3.** Cymeradwyo'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, sy'n dechrau ar 7 Ionawr 2026 ac yn para am 6 wythnos.

Mae cymeradwyo'r argymhellion uchod yn sicrhau cydgysylltiad â Amcan Newid Hinsawdd Cynllun y Cyngor 2023-28 i sefydlu cyfradd ailgylchu gwastraff cartref o 70% a Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu.

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024/25. Gall methu â chyrraedd targedau ailgylchu arwain at ddirwy gan Lywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar y gyfradd ailgylchu bresennol o tua 65%, amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn wynebu dirwy flynyddol o £361k.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Glasbrint Casgliadau 2025. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn maen nhw'n ei argymell ar gyfer casglu gwastraff ac mae’r Cyngor eisoes yn bodloni'r rhan fwyaf ohonynt.

Derbyniwyd cefnogaeth ar sut i gynyddu cyfraddau ailgylchu gan WRAP Cymru. Eu prif argymhelliad oedd lleihau'r capasiti gwastraff gweddilliol wythnosol i 60l, yn unol â'r hyn a argymhellir yng Nglasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru 2025.

Gellid cyflawni hyn drwy gasglu gwastraff gweddilliol yn llai aml a/neu leihau maint y bin ac mae WRAP Cymru yn amcangyfrif y byddai hyn yn cynyddu cyfradd ailgylchu'r Cyngor o leiaf 5%. Mae'r modelu hyd yn hyn yn ffafrio symud i 4 wythnos dros finiau llai oherwydd:


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

- Cost biniau newydd
- Mae cadw at 3 wythnos yn debygol o olygu gofynion staffio uwch
- Gallai gorlenwi biniau llai eu gwneud yn anoddach i'w gwagio ac yn haws i'w difrodi.

Mae angen i'r Cyngor benderfynu cyn gynted â phosibl a yw am gyflwyno newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn cynyddu ei gyfradd ailgylchu ac felly mae angen iddo glywed barn pob cartref ar Ynys Môn ynglŷn â newidiadau posibl i'r gwasanaeth.

Os, yn dilyn ymgynghori, bydd y Cyngor yn penderfynu cyflwyno newid gwasanaeth, bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar gyfer gwelliannau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddent ond yn ariannu ceisiadau lle mae cynllun credadwy i gyflawni 70% neu fwy. Bydd ymgynghori â pob cartref yn dangos bod y Cyngor o ddifri ynglŷn â chyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70%.

Mae'r cwestiynau arfaethedig yn ystyried ystod o newidiadau posibl i'r gwasanaeth a ddarperir sydd â'r nod o gynyddu cyfraddau ailgylchu ac yn ôl eu natur yn cynnwys yr opsiwn sefyllfa bresennol gofynnol.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae’n ofyniad i ymgynghori â'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio pan yn ystyried cyflwyno unrhyw newid sylweddol i wasanaeth, yn enwedig pan fo'r cynnig i leihau'r gwasanaeth. Gan y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth casglu yn effeithio ar bob trigolyn yn Ynys Môn, bydd proses ymgynghori lawn felly’n ofynnol. Mae'r newid gwasanaeth posibl hwn yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd targed ailgylchu statudol o 70% a osgoi costau cynyddu.

Gall oedi’r ymgynghori arwain at y broses gael effeithio gan gyfyngiadau cyn-etholiad. Gall unrhyw oedi leihau’r posibilrwydd o dderbyn cyllid cyfalaf sylweddol gan Lywodraeth Cymru i ariannu costau unrhyw newid gwasanaeth, e.e. uwchraddio isadeiledd ailgylchu. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i’r Cyngor ariannu hyn neu wynebu’r effeithiau ar ddarparu gwasanaeth.

Mae peidio â chael cynllun ystyrlon i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% hefyd yn cynyddu'r risg o gael dirwy gan Lywodraeth Cymru am beidio â chyrraedd y targedau statudol mewn unrhyw flwyddyn benodol ac yn effeithio ar gostau gweithredu’r busnes arferol.

Ystyriwyd cwestiynau ychwanegol ac amgen, fodd bynnag, ystyrir mai'r rhai a gynhwysir yn Atodiad 1 yw'r rhai mwyaf perthnasol i'r newidiadau gwasanaeth arfaethedig.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

| |
|---|
| Gall y newidiadau gwasanaeth arfaethedig fod yn emosiynol iawn ac mae goblygiadau ariannol cyflwyno'r newidiadau arfaethedig, ac yn wir peidio â'u cyflwyno, yn sylweddol ac y tu hwnt i ddirprwyaeth ariannol swyddogion.<br><br>Dylid nodi, oherwydd yr angen i sicrhau cyllideb, ymgynghori a chwblhau gwaith i ddatblygu'r seilwaith, ei bod yn annhebygol iawn y gellir cyflwyno unrhyw newid i'r drefn gasglu cyn 2029. |

Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig wedi'i alinio'n uniongyrchol â Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu'r Cyngor, Cynllun Strategol Cyfranogiad y Cyhoedd 2023 i 2028, Cynllun Cyfathrebu Strategol 2023 i 2028, a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028. |

D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Nid oes unrhyw gostau sylweddol o gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig. Amser swyddogion fydd y prif adnodd sydd eisoes wedi'i ariannu. |

Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Bydd y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth yn effeithio ar bob cartref ar yr ynys ac felly mae'n hanfodol ymgynghori â nhw. |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i’r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Bydd gweithredu'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth heb ymgynghori yn gadael y Cyngor yn agored i her. Gallai hynny oedi gallu'r Cyngor i gytuno ar gynllun ystyrlon i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%, sy'n cynyddu'r risg o gael dirwy gan Lywodraeth Cymru ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gael cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy

| |
|---|
| Llywodraeth Cymru, WRAP Cymru a Local Partnerships.. |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

| |
|---|
| Amherthnasol |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Bydd yr ymgynghoriad yn sicrhau bod barn y rhai sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu ceisio. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Bydd darpariaeth yn cael ei wneud yn yr ymgynghoriad i ganiatáu i unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol ymateb mewn dull sy'n rhad ac am ddim ac yn gyfleus iddynt (e.e. arolwg electronig, sesiynau galw heibio lleol ac ati). |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Bydd yr holl ddeunydd ymgynghori ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhellion |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Yn gefnogol o'r argymhellion |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhellion |
| 4. Adnoddau Dynol | Amherthnasol |
| 5. Eiddo | Amherthnasol |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Amherthnasol |
| 7. Caffael | Amherthnasol |
| 8. Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9. Aelodau lleol | Amherthnasol |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 - Dogfen Ymgynghori Ddrafft – i ddilyn<br><br>Atodiad 2 – Amserlen Ddrafft |

Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad i gael rhagor o wybodaeth)

| |
|---|
| Adroddiad byr ar ailgylchu 70% |


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

## Atodiad 1 – Dogfen Ymgynghori Ddrafft

# Ymgynghoriad ar newidiadau posibl i wasanaethau ailgylchu/casglu gwastraff ar Ynys Môn

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi nodi ymrwymiad clir i ddiogelu'r amgylchedd a lleihau ein hôl troed carbon yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 ac mae ailgylchu yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith hwn. Trwy leihau faint o wastraff sy'n mynd i'w waredu, gallwn leihau allyriadau, diogelu adnoddau gwerthfawr, a helpu i greu Ynys lanach, fwy gwyrdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% neu wynebu cosbau ariannol. Mae Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff y Cyngor 2024-2029 yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu cyfraddau ailgylchu a chyrraedd y targed o 70%.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu beth sy'n digwydd i'ch ailgylchu, cliciwch yma.

Ar hyn o bryd mae Ynys Môn yn ailgylchu 65%. Yn seiliedig ar y gyfradd ailgylchu hon, gallai'r Cyngor Sir wynebu dirwy o tua £350k y flwyddyn. Mae hyn yn arian gall ei wario ar wasanaethau hanfodol.

Gwyddom y gallwn wneud yn well gan fod data ac ymchwil ddiweddar yn dangos y gellid ailgylchu tua 52% o'r gwastraff sydd wedi'i roi mewn biniau du ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Gwyddom hefyd fod ailgylchu gwastraff bwyd yn gymharol isel o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, a bod rhai aelwydydd yn gweld storio cardfwrdd dros ben yn broblem.

Mae tystiolaeth gan Gynghorau eraill yng Nghymru wedi profi bod rhoi mwy o gyfleoedd i aelwydydd ailgylchu, tra'n lleihau faint o le sydd ar gael ar gyfer gwastraff cyffredinol ('bag du') yn arwain at cyfraddau ailgylchu uwch. Er mwyn ailgylchu i'r eithaf mae Glasbrint Casglu Llywodraeth Cymru yn argymell na ddylai aelwydydd gael mwy nag un bag du safonol llawn (60litr) neu lai yr wythnos – ar hyn o bryd mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd Ynys Môn bin du 240 litr sy'n cael ei gasglu unwaith bob 3 wythnos.

Er mwyn helpu cyrraedd targedau cenedlaethol ac osgoi cosbau ariannol, rydym am wneud ailgylchu yn haws ac yn fwy cyfleus i drigolion. Rydym yn archwilio newidiadau posibl, sy'n cynnwys:

- Addasu cyfluniad y bocs troli i'w gwneud hi'n haws ei ailgylchu trwy gasglu papur a chardfwrdd gyda'i gilydd
- Darparu cynwysyddion ychwanegol i aelwydydd i storio ailgylchu ychwanegol
- Lleihau'r cyfaint wythnosol a gesglir trwy wagio biniau du bob 4 wythnos yn hytrach na phob 3 wythnos.

Sylwch nad oes unrhyw newid yn cael ei ystyried i wastraff gardd werdd neu gasgliadau clytiau ar hyn o bryd.

Bydd unrhyw newidiadau yn gofyn am fuddsoddiad mewn cerbydau newydd a gwelliannau yn ein safleoedd gwastraff ac ailgylchu. Oherwydd hyn, y cynharaf y gallai unrhyw newid i'r gwasanaeth casglu ddechrau fyddai 2029.

Rydym yn deall bod gan wahanol aelwydydd anghenion gwahanol ac y gallai rhai fod â phryderon penodol am unrhyw newidiadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi rannu eich barn ac yn gyfle i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn llawn cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Bydd eich adborth yn ein helpu i lunio gwasanaeth sy'n diwallu anghenion trigolion, yn cefnogi ein nodau amgylcheddol, ac yn helpu Ynys Môn i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech gymryd ychydig funudau i lenwi'r holiadur isod:

**Adran 1: Eich barn ar wasanaethau ailgylchu a gwastraff**

1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig".
   - Cytuno'n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno'n gryf

   (Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf – nodwch pam)

2. Pa rwystrau, os oes rhai, sy'n gwneud ailgylchu yn anodd i chi?
   - Dim digon o le / cynwysyddion ailgylchu yn rhy fach
   - Ddim yn siŵr beth ellir ei ailgylchu ac na ellir ei ailgylchu
   - Ddim yn cynhyrchu llawer o ailgylchu
   - Mae ailgylchu yn anhrefnus ac yn anhylendid
   - Lle dan do i storio cyn rhoi deunyddiau y tu allan yn gyfyng
   - Anawsterau corfforol (codi, cario, symudedd)
   - Dim diddordeb mewn ailgylchu
   - Dim rhwystrau – eisoes ailgylchu popeth y gallwn
   - Arall (sylwer)

## Adran 2: Eich lefelau gwastraff ac ailgylchu presennol

3. Ar ddiwrnod casglu nodweddiadol, pa mor llawn yw eich

| | Chwarter llawn llai | Hanner Llawn | Tri chwarter yn llawn | Llawn | Llawn cyn y diwrnod casglu | Dim yn defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bin du | | | | | | |
| Bin bwyd | | | | | | |
| Bocs uchaf y troli bocs | | | | | | |
| Bocs canol y troli bocs | | | | | | |
| Bocs gwaelod y troli bocs | | | | | | |

## Adran 3: Newidiadau Posibl i'r Gwasanaeth

4. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor yn eich helpu i ailgylchu mwy".
   - Cytuno'n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno'n gryf

   (Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf – nodwch pam)

5. I ba raddau rydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos
   - Cefnogi'n gryf
   - Cefnogi
   - Niwtral
   - Gwrthwynebu
   - Gwrthwynebu'n gryf

   (Os ydych chi'n gwrthwynebu neu'n gwrthwynebu'n gryf - nodwch pam)

6. Defnyddiwch y cyfle hwn i ddweud wrthym am unrhyw bryderon, awgrymiadau neu amgylchiadau cartref a allai effeithio ar sut rydych chi'n rheoli gwastraff ac ailgylchu, yn enwedig os ydych wedi ateb "anghytuno", "anghytuno'n gryf", "gwrthwynebu" neu "gwrthwynebu'n gryf" i unrhyw un o'r cwestiynau blaenorol.

**Adran 4: Amdanoch chi**

7. Beth yw eich Cod Post:

8. Faint sy'n byw yn eich cyfeiriad?

9. Beth yw eich ystod oedran:

10. Ydych chi'n derbyn gwasanaeth casglu â chymorth?

11. Ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth casglu cewynnau / gwastraff clinigol?

Amserlen ddrafft ar gyfer newid posibl i’r gwasanaeth:

| **Gweithred (*)** | **Wedi'i gwblhau gan** |
|---|---|
| Penderfyniad gweithredol i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus | Rhagfyr 2025 |
| Ymgynghoriad cyhoeddus | Ionawr - Chwefror 2026 (6 wythnos) |
| Dadansoddiad ar ôl yr ymgynghoriad | Mawrth – Mai 2026 |
| Proses gwneud penderfyniadau (Craffu, cymeradwyaeth Weithredol) mewn perthynas â newid gwasanaeth | Mai – Gorffennaf 2026 |
| Dyluniad cysyniad | Hydref 2026 |
| Dyluniad manwl | Gwanwyn 2027 |
| Cymeradwyaethau cyfnod adeiladu a thrwyddedau | I'w gwblhau erbyn Haf 2029 |
| Dechrau newid gwasanaeth | Hydref 2029 |

*Mae pob camau gweithredu yn y tabl uchod yn ddarostyngedig i'r broses benderfynu arferol o fewn y Cyngor.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r tebygolrwydd o dderbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, mae angen cyflwyno cais Cychwynnol (ISPA) cyn gynted â phosibl.  Bydd angen cyflwyno ceisiadau cyllid mwy manwl os yw'r ISPA yn llwyddiannus.

**Communication Plan- Consultation on potential changes to recycling/waste collection services on Anglesey**

Timeline (weeks commencing): 17-Nov-25, 24-Nov-25, 01-Dec-25, 08-Dec-25, 15-Dec-25, 22-Dec-25, 29-Dec-25, 05-Jan-26, 12-Jan-26, 19-Jan-26, 26-Jan-26, 02-Feb-26, 09-Feb-26, 15-Feb-26, 23-Feb-26, 04-May-26

| | Main Tasks/ Actions | End Date | Resposible Officer |
|---|---|---|---|
| 1.0 | **Governance** | | |
| 1.1 | Attend a briefing session with the Executive | 02.12.2025 | HP/MPE/Executive |
| 1.2 | Agree for consultation to commence (start date, duration and questions). | 16.12.2025 | Executive |
| 2.0 | **Consultation Questionnaire** | | |
| | *Electronic* | | |
| 2.1 | Raise early warning ticket with IT to prepare electronic questionnaire. | 17.11.2025 | JJ |
| 2.2 | Electronic questionnaire testing. | 10.12.2025 | LAJ/ MC |
| 2.3 | Electonic questionnaire agreed and complete. | 15.12.2025 | LAJ |
| 2.4 | Electronic questionnaire goes live. | 07.01.2026 | LAJ/MC |
| 2.5 | Electronic questionnaire closes (after 6 weeks). | 18.02.2026 | LAJ/MC |
| | *Paper* | | |
| 2.5 | Liaise with the following sites to request them to issue hard copies of questionnaire; Libraries, Leisure Centres, Recycling Centres, Cyswllt Môn. | 28.11.2025 | LAJ/GJ/LJ/SD |
| 2.6 | Distribute hard copies of questionnaires to sites listed in 2.4 above. | 07.01.2026 | LAJ |
| 2.7 | Collect hard copies of questionnaires. | 19.02.2026 | LAJ |
| 3.0 | **Awareness Raising of Consultation** | | |
| 3.1 | Continue with general weekly Social Media messages (pre-consultation). | Weekly up until the consultation | GJ/LJ/SD |
| 3.2 | Prepare consultation launch message/image for Social Media. | 28.11.2025 | EO/GJ/LJ/SD |
| 3.3 | Prepare a press release to inform the public on the upcoming consultation (following the Executive decision on 16.12.25). | 28.11.2025 | GJ/LJ/SD |
| 3.4 | Post consultation launch message/ image on Social Media. | 07.01.2026 | GJ/LJ/SD |
| 3.5 | Re-post consultation launch message/ image on Social Media. | 28.01.2026 | GJ/LJ/SD |
| 3.6 | Consider further awareness raising options e.g. adverts and local radio | 28.11.2025 | GJ/LJ/SD |
| 3.7 | Email all Elected Members to infom them of the consultation go live date. | 31.12.2025 | GJ/LJ/SD |
| 3.8 | Issue 'Y Ddolen' message to infom staff of the consultation go live date. | 07.01.2026 | GJ/LJ/SD |
| 3.9 | Email all Town/ Communmity Councils to infom them of the consultation go live date. | 07.01.2026 | GJ/LJ/SD |
| 4.0 | **Drop-in Sessions** | | |
| 4.1 | Agree a series of drop-in sessions at Council libraries during the consultation period. | 07.01.2026 | LAJ |
| 4.2 | Agree a Social Media message to advertise the drop- in sessions locations and dates. | To be agreed during the consultation period. | EO/GJ/LJ/SD |
| 5.0 | **Equality Impact Assessment** | | |
| 5.1 | Discuss the requirements for completing an EIA with the Policy and Welsh Language Manager and agree any required actions. | 21.11.2025 | LAJ |
| 5.2 | Prepare a draft EIA and share with the Policy and Welsh Language Manager for feedback. | 05.12.2025 | LAJ |
| 6.0 | **Project Review** | | |
| 6.1 | Weekly review meetings. | Weekly | LAJ |
| 7.0 | **Evaluation of the Consultation** | | |
| 7.1 | Complete an evaluation report on the consultation. | 08.05.2024 | JJ/LAJ |

Dewisiadau:

| Opsiwn | Disgrifiad | Amcangyfrif o gynnydd mewn ailgylchu drwy weithredu'r newid | Amcangyfrif o % Ailgylchu drwy weithredu'r newid | Amcangyfrif o'r gost refeniw | Amcangyfrif o'r gost gyfalaf |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau i'r bin du / gwasanaeth casglu ailgylchu wrth garreg y drws | 0% | 64.7% | £361k y flwyddyn 9 dirwy) | **£8.1M** ( ond risg uchel o beidio â derbyn cyfraniad tuag at uwchraddio adeiladau / peiriannau / offer / draenio ). |
| 1A | Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau i'r bin du / gwasanaeth casglu ailgylchu ar garreg y drws, ond cynigiwch gynhwysydd ychwanegol ar gyfer cardbord a phapur a dim ond newid y defnydd o rannau o'r troli bocs. | <0.5% | 65.2% | £327k y flwyddyn (dirwy) + costau casglu ychwanegol. | **£8.25M** ( ond risg uchel o beidio â derbyn cyfraniad tuag at uwchraddio adeiladau / peiriannau / offer / draenio ). |
| 2 | Lleihau'r cyfaint gwastraff gweddilliol wythnosol trwy gasglu'r biniau du 240 litr presennol bob 4 wythnos a chynnig cynhwysydd ychwanegol ar gyfer cardbord a phapur | +5.6% | 70.3% | £460k (costau casglu ychwanegol llai dirwy) | **£14.3M** |
| 3 | Lleihau cyfaint gwastraff gweddilliol wythnosol drwy gasglu biniau du 180 litr newydd bob 3 wythnos a darparu cynhwysydd ychwanegol ar gyfer cardbord a phapur | +5.2% | 69.9% | £460k (costau casglu ychwanegol llai dirwy) | **£15.2M+ (£900k** ar gyfer biniau newydd) |
| 4 | Lleihau cyfaint gwastraff gweddilliol wythnosol drwy gasglu biniau du 140 litr newydd bob 3 wythnos a darparu cynhwysydd ychwanegol ar gyfer cardbord a phapur | +6.7% | 71.4% | £460k (costau casglu ychwanegol llai dirwy) | **£15.2M** + (**£900k** ar gyfer biniau newydd) |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **16 Rhagfyr 2025** |
| Pwnc / Testun: | **Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2026/27** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Darren Gerrard, Rheolwr Busnes Adran Tai**<br>**01248 752265**<br>**dkghp@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gynnydd o hyd at 4.3% mewn lefelau rhent cymdeithasol gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd rhent a thaliadau gwasanaeth ar gyfer 2026/27 fel y nodir isod :-

**A1** i gymeradwyo cynydd o 4.3% ar draws yr holl undau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.

**A2** i gymeradwyo cynnydd o £1.10 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.

**A3** i gymeradwyo'r taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 6.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

**A4** i gymeradwyo gweinyddu'r 'Cynllun Cymorth Rhent', cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sydd yn hunan dalu eu rhent.

## 1.0 Cefndir

**1.1** Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i glustnodi'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdod Lleol.

**1.2** Ar 29 Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol Safon Rent a Thâl Gwasanaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 10 mlynedd 2026–2036, gan ddarparu sicrwydd a sefydlogrwydd i landlordiaid cymdeithasol a denantiaid ledled Cymru. Mae’r polisi tymor-hir hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod tai cymdeithasol yn parhau i fod yn fforddiadwy, o ansawdd uchel, ac yn ymatebol i anghenion cymunedau. Mae blwyddyn rent 2026–2027 yn nodi’r flwyddyn gyntaf dan sylw gan Safon Rent a Thâl Gwasanaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 10 mlynedd (y Safon Rent). Mae'r Safon Rent newydd yn gymwys o 1 Ebrill 2026 hyd at 31 Mawrth 2036.

**1.3** Ar 24 Hydref 2025 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mewn llythyr ei bod wedi cytuno ar y Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2026/27. Mae'n cynghori y dylai pob Awdurdod Lleol ddefnyddio fformiwla mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) + 0.5% gyda gwerth CPI ym mis Medi 2025 yn 3.8%.

**1.4** Mae'r Gweinidog wedi pennu’r codiad rhent blynyddol uchaf ar draws y holl stoc rhent cyffredinol fydd **hyd at** 4.3%.

**1.5** Er mai 4.3% fydd y cynnydd mwyaf a ganiateir, disgwylir bod rhaid i benderfyniad yr Awdurdod ar y cynnydd rhent ystyried anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid yn gyfartal.

**1.6** Uchelgais Llywodraethau Cymru yw bod pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cynnwys yr 11 awdurdod lleol sydd wedi cadw eu stoc tai yn ymrwymo i gyrraedd safonau SATC 2023 a cafodd i lansio yn ddiweddar erbyn 2033. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y HRA i ariannu dros yr 7 mlynedd nesaf i wireddu'r safonau ychwanegol hyn a fydd yn arwain at ostyngiad mewn refeniw dros ben ar gael o'r CRT i ariannu buddsoddiad cyfalaf sy'n ofynnol i fodloni'r safonau newydd.

**1.7** Byddwn yn parhau i dderbyn y Lwfans Atgyweirio Mawr o tua £2.7m gan Lywodraeth Cymru nad yw wedi cynyddu i fodloni'r safonau newydd ychwanegol.

**1.8** Mae disgwyl hefyd gan Lywodraeth Cymru fod pob RSL yng Nghymru yn parhau i gynyddu nifer y tai cymdeithasol fforddiadwy newydd sy'n cael eu datblygu i gyflawni eu huchelgais o 20,000 o gartrefi newydd. Dros y 4 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Tai wedi cwblhau datblygiad 140 o

gartrefi newydd a phrynu 69 o hen dai Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae gennym raglen ddatblygu o 44 o gartrefi newydd ar y safle.

**1.9** Hyderwn bod yr uchod yn cyfiawnhau'r achos modd i fod yn uchafu ein incwm rhent er mwyn cwrdd â dyheadau Llywodraethau Cymru sydd yn cynnwys yr angen i sicrhau gorffeniad lloriau addas yn ein cartrefi sydd am fod yn cynyddu ein costau wrth ail osod cartrefi.

**1.10** Fel rhan o Safon Rhentu newydd Llywodraeth Cymru 2026–2036, mae'n ofynnol i'r holl Ddenantwyr Cymdeithasol gynnal asesiad blynyddol o fforddiadwyedd rhent tenantiaid, gan sicrhau bod taliadau gwasanaeth wedi'u cynnwys yn y model fforddiadwy. Rhaid iddynt hefyd ddangos effeithlonrwydd cost a darparu sicrwydd bod eu tai a'u gwasanaethau yn cynrychioli gwerth am arian.

**1.11** <u>Ymrwymiadau a Mentrau Cytundeb Rhent</u>

Fel rhan o'r broses ystyried ar gyfer y setliad hwn, mae nifer o ymrwymiadau a mentrau newydd wedi eu pennu gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys :-

- Parhau â'r ymrwymiad o beidio â throi allan oherwydd caledi ariannol am gyfnod y setliad, lle mae tenantiaid yn gweithio gyda landlordiaid, wrth weithio gyda phartneriaid i gyflawni'r ymrwymiad i beidio â gwneud rhywun yn ddigartrefedd drwy ei droi allan.
- Parhau i fynd ati mewn modd wedi'i dargedu i helpu'r rhai sy'n profi caledi ariannol i gael mynediad at gymorth, ochr yn ochr â chyfathrebu â ffocws i annog tenantiaid i siarad â'u landlord os ydynt yn profi anawsterau ariannol a manteisio ar y cymorth sydd ar gael.
- Manteisio i'r eithaf ar yr holl stoc tai cymdeithasol addas, gyda ffocws ar helpu'r rhai mewn llety trosiannol o ansawdd gwael i symud i gartrefi tymor hwy sy'n diwallu eu hanghenion.
- Parhau i adeiladu ar yr ymgysylltu presennol â thenantiaid wrth wneud penderfyniadau ynghylch pennu rhenti, gan gynnwys esbonio sut mae incwm o rent yn cael ei fuddsoddi a'i wario.
- Parhau i gynnal arolygon boddhad tenantiaid safonol a darparu'r data i'w gyhoeddi ar wefan ganolog i gynorthwyo tenantiaid i graffu ar berfformiad landlordiaid. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried cynnwys hyd at dri chwestiwn newydd dros gyfnod y setliad rhent, er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn parhau i fod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau tenantiaid a pharhau i weithio i wella methodolegau'r arolwg.
- Ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd a gwella dysgu ac arferion drwy rannu data yn well:

▪ *ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, parhau i gyhoeddi'r ffurflen ddata dienw chwarterol mewn perthynas ag agweddau allweddol ar ddarparu gwasanaethau.*

- *ar gyfer Awdurdodau Lleol, gweithio gyda ni i alluogi cwblhau datganiadau data chwarterol ar agweddau allweddol ar ddarparu gwasanaethau a chytuno i'w cyhoeddi, gyda'r data'n ddienw.*
- *ar gyfer Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gweithio tuag at gyhoeddi'r data mewn modd cwbl dryloyw (lle y gellir adnabod pob landlord) cyn gynted ag y bo'n ymarferol unwaith y bydd unrhyw bryderon ansawdd data wedi cael eu datrys.*
- *Gweithio gyda'n gilydd i gasglu tystiolaeth ac asesu'n llawn, a lle bo hynny'n bosibl, profi mentrau i gefnogi gwaith sy'n atgyfnerthu ein gallu i wella a datgarboneiddio rhagor o gartrefi.*
- *Ymrwymiad parhaus i fuddsoddi mewn darparu rhagor o gartrefi a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddylunio polisi a mabwysiadu modelau cyllido arloesol i'n cefnogi i gyflawni ein hamcanion datgarboneiddio a bodloni ein huchelgeisiau sero-net.*

**1.12** Rhent Canolradd – Mae Safon Rhent Tai Cymdeithasol a Gwasanaethau yn nodi nad yw eiddo Rhent Canolradd yn dod o dan sgôp y polisi. Felly, penderfynwyd cymhwyso'r cynnydd 4.3% hwnnw i'r eiddo hyn.

## 2.0 Fforddiadwyedd

**2.1** Er mwyn asesu'r fforddiadwyedd rhent cyfartalog presennol ar gyfer tenantiaid Cyngor Sir Ynys Môn, defnyddiwyd methodoleg Rhentu Byw Sefydliad Joseph Rowntree (JRF).

**2.2** Mae'r model Rhent Byw JRF yn sefydlu cysylltiad rhwng rhenti a gallu pobl ar incwm isel i'w fforddio, gan ddefnyddio'r data enillion lleol cwarter is o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

**2.3** Mae'r model yn nodi y dylai Rhent Byw fod yn fforddiadwy i aelwyd gyda rhywun mewn cyflogaeth llawn amser, gan weithio nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos ar gyfartaledd ac enillion o gwmpas yr isafswm cyflog. Mae'r model felly'n defnyddio'r ffigurau enillion cenedlaethol chwarter isaf.

**2.4** Yn ôl data ABOC (Arolwg Blynyddol o Oriau a Chyflogau) 2025, mae enillion gros y ganran 30 ar Ynys Môn yn £486.29 yr wythnos, sy'n cyfateb i £25,287 y flwyddyn.

**2.5** Mae egwyddor model JRF yn nodi bod 28% o'r enillion wythnosol net hyn (y pedwarawd isaf) felly'n £116.99 yr wythnos, sy'n golygu na ddylai person ar rent cymdeithasol fod yn talu mwy na £116.99 yr wythnos ar rent i berson sengl mewn fflat un ystafell wely.

**2.6** Mae angen pwysau i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol ein mathau o eiddo a'n meintiau :-

| Math o eiddo | Ffactor | Nifer o stafelloedd gwely | Ffactor |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bedsit | -0.10 | Bedsit | 0.00 |
| Fflat | 0.00 | 1 gwely | 0.00 |
| Bungalo | 0.10 | 2 gwely | 0.20 |
| Tŷ | 0.10 | 3 gwely | 0.30 |
| | | 4 gwely | 0.40 |
| | | 5+ gwely | 0.50 |

**2.7** Yn unol â methodoleg JRF, mae cymhwyso'r cynnydd o 4.3% yn cadarnhau bod y rhent a'r tâl gwasanaeth cyfartalog ar gyfer pob math a maint o eiddo yn dal i fod yn fforddiadwy i denantiaid ar Ynys Môn.

| Math o eiddo | Nifer o stafelloedd gwely | Ffactor cychwyn | Ffactor addasu | Rhent byw JRF | Rhent wythnosol cyfartalog CSYM | Rhent + 4.3% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bedsit | Bedsit | 1.00 | 0.9 | £105.29 | £83.52 | £92.64 |
| Fflat | 1 Gwely | 1.00 | 1 | £116.99 | £94.20 | £105.24 |
| Fflat | 2 Gwely | 1.00 | 1.2 | £140.39 | £104.41 | £113.29 |
| Fflat | 3 Gwely | 1.00 | 1.3 | £152.09 | £114.98 | £123.05 |
| Fflat | 4 Gwely | 1.00 | 1.4 | £163.79 | £125.70 | £142.95 |
| Bungalo | 1 Gwely | 1.00 | 1.1 | £128.69 | £104.11 | £109.39 |
| Bungalo | 2 Gwely | 1.00 | 1.3 | £152.09 | £114.16 | £119.51 |
| Bungalo | 3 Gwely | 1.00 | 1.4 | £163.79 | £125.10 | £130.60 |
| Bungalo | 4 Gwely | 1.00 | 1.5 | £175.49 | £137.40 | £143.31 |
| Ty | 1 Gwely | 1.00 | 1.1 | £128.69 | £104.31 | £108.79 |
| Ty | 2 Gwely | 1.00 | 1.3 | £152.09 | £115.21 | £120.19 |
| Ty | 3 Gwely | 1.00 | 1.4 | £163.79 | £123.35 | £128.80 |
| Ty | 4 Gwely | 1.00 | 1.5 | £175.49 | £132.38 | £138.11 |
| Ty | 5+ Gwely | 1.00 | 1.6 | £187.18 | £142.31 | £148.77 |

**2.8** Yn ogystal â’r asesiad fforddiadwyedd, cynhaliwyd arolwg ar-lein rhwng 13eg a 30ain Tachwedd 2025. Roedd nod yr arolwg i fesur barn tenantiaid ar ba mor deg ac fforddiadwy yw eu rhent, ac pha mor werth am arian yw’r gwasanaethau a dderbyniant o ran arian. Mae hyn yn helpu sicrhau bod rhent yn parhau i fod yn deg ac fforddiadwy i denantiaid presennol a’r dyfodol.

**2.9** Un o’r cwestiynau allweddol yn yr arolwg oedd: “Rydym am sicrhau bod ein rhenti’n deg ac yn fforddiadwy i denantiaid presennol a dyfodol. A ydych yn ystyried bod eich rhent yn fforddiadwy?” Mae bron i 74% o’r tenantiaid wedi ymateb bod eu rhent yn fforddiadwy, tra bod 26% wedi anghytuno.

**3.0 Effaith Cynnydd Rhent ar ein Tenantiaid**

**3.1** Bydd y cynnydd mewn rhent blynyddol yn cael ei gyfrifo gan 'Rent Cyfredol + 4.3%' ar gyfer pob tenant.

**3.2** Ar hyn o bryd ni fydd 3064 o denantiaid y Cyngor (77%) yn wynebu caledi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd rhent arfaethedig a thaliadau gwasanaeth, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu ran ohono neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r taliadau gwasanaeth, oni bai eu bod yn gymwys i gael budd-dal wrth gwrs, yn dilyn y cynnydd.

**3.3** Bydd Gweithredu'r cynnydd o 4.3% yn rhoi cynnydd rhwng £3.51 yr wythnos a £6.65 yr wythnos i bob tenant.

834 codi rhwng £3.51 - £4.50
3054 codi rhwng £4.51 - £5.50
124 codi rhwng £5.51 - £6.65

**3.4** Mae tua 876 o denantiaid ddim yn derbyn unrhyw gymorth tuag at eu rhent ac felly, yn talu'r rhent yn llawn. Bydd gweithredu'r cynnydd hyn yn golygu :-

199 yn codi rhwng £3.51 - £4.50
677 codi rhwng £4.51 - £5.97

**3.5 Rhent Canolradd**

Ar hyn o bryd mae gennym 44 eiddo o dan y gyfradd rhent 'Canolradd' ac er mwyn bod yn deg a chyson, penderfynir cymhwyso'r un cynnydd o 4.3% ar gyfer y tenantiaid hyn. Bydd gweithredu'r cynnydd hyn yn golygu:-

8 yn codi rhwng £4.20 - £4.88
36 codi rhwng £5.69 - £6.65

**3.6** Pe byddem yn gweithredu cynnydd rhent o 4.3% ac yn casglu dros 51 wythnos i ystyried yr wythnos ddi-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu incwm rhent blynyddol o oddeut £24.5m sydd oddeutu £1M o incwm rhent blynyddol ychwanegol.

**3.7** Gan ystyried effaith Diwygio Budd-daliadau Lles Llywodraeth a'r argyfwng Costau Byw sy'n parhau, ynghyd â rheoli rhent yn effeithiol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi'i lleihau i **£159,250 (0.65%)** ar gyfer 2026/27.

**4.0 Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd**

**4.1** Yn y cynllun 30 mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, dangosodd y Cyngor ein bod yn uchelgeisiol drwy ddarparu mwy o dai fforddiadwy

ynghyd â thai gofal ychwanegol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y mwyaf o'r incwm rhent er mwyn gallu datblygu a chynyddu'r stoc.

**5.0 Cymorth Ariannol i Denantiaid**

**5.1** Mae gan y Gwasanaethau Tai Dim Cynhwysiant Ariannol sydd yn cynnwys tri Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i denantiaid sydd yn hunan dalu a fyddai'n wynebu unrhyw galedi ariannol o ganlyniad i weithredu'r cynnydd.

**5.2** Bydd y Cyngor hefyd yn neilltuo cronfa 'Cynllun Cymorth Rhent' sy'n gynllun lleol i denantiaid a allai fod mewn trafferthion ariannol o ganlyniad i'r cynnydd.

**5.3** Bydd cartrefi sy'n cael eu hystyried i fod angen cymorth gyda'u rhent yn gallu gwneud cais i’r Cynllun Cymorth Rhent neu'n cael eu cyfeirio at y cynllun.

**6.0 Taliadau Gwasanaeth**

**6.1** Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2026/27 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2024/25 ac fe'u rhennir yn gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod mwyafrif y costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol.

**6.2** Mae rhan fwyaf o’r costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Bydd oddeutu £261 mil o incwm yn cael ei gynhyrchu ganddynt.

**6.3** Y taliadau wythnosol arfaethedig ar gyfer 2026/2027, yn seiliedig ar 51 wythnos, yw:

Cynnal lifftiau - £0.21 - £1.23
Glanhau ardaloedd cymunedol - £4.57 – £12.72
Larymau Tân ac Offer Tân - £2.59
Systemau Mynediad - £0.31
Taliadau Carthffosiaeth - £3.90
Gwresogi a Goleuo ardaloedd cymunedol - £2.05
Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.24
Cynnal a Chadw Tir (Eiddo Domestig) - £5.75 (tâl 6 mis)
Cynnal a Chadw Tir (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau rheoli ar 15% o bob tâl gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **6.4** | Ar hyn o bryd mae 39 o lesddeiliaid y codir arnynt am wasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm blynyddol ychwanegol o oddeutu £11 mil**.** |
| **7.0** | **Garejis** |
| **7.1** | Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw arweiniad ar sut i gynyddu rhent garej. Mae'r Cyngor felly yn cynnig gynyddu rhent y garej o 10% a fydd yn cynyddu'r rhent o £1.10. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £11.02 yr wythnos i £12.12 a bydd yn cynhyrchu incwm o £283 mil ar ôl tynnu garejys gwag. Ar 11Tachwedd 2025 mae yna 459 o garejys wedi'i feddiannu a 124 o garejys gwag.<br><br>Byddwn yn ceisio defnyddio'r incwm ychwanegol i greu cynllun strategol ar gyfer y garejys. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Codi'r rhent o swm is na'r uchafswm a ganiateir gan Bolisi Rhentu Llywodraeth Cymru, ond o ystyried y pwysau cyllidebol ychwanegol sy'n wynebu'r CRT, ni fyddai codiad yn îs na'r 4.3% yn ddigonol i dalu costau cynyddol a byddai'n gwanhau cynaliadwyedd ariannol cyffredinol yr CRT. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae gan Bolisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer Cynllun Busnes y CRT. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roi'r Polisi Rhent ar waith. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu colli incwm i'r Awdurdod ac yn anochel yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio Cynllun Busnes y CRT ac o bosib yn ein hagor i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r polisi'n cael ei fabwysiadu. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Trwy fuddsoddiad parhaus yn ein stoc sy'n golygu bod cartrefi'n cyrraedd safonau SATC yn barhaus. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ddim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae Ynys Môn yn gweithio gyda'r 10 awdurdod cadw stoc arall a CLILC i ddylanwadu ar bolisi rhent Llywodraeth Cymru |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynhaliwyd arolwg ar-lein rhwng 13/11/2025 – 30/11/2025 i ymgysylltu â'r tenantiaid a chasglu eu barn ar fforddiadwyedd rhent a tâl gwasanaeth. Caiff y tenantiaid eu hysbysu'n flynyddol am gynnydd rhent a thaliadau gwasanaeth ar ôl cymeradwyaeth ddemocrataidd ym mis Rhagfyr. Bydd hysbysiad o 2 fis i'r tenantiaid ynghylch y cynnydd hwn trwy lythyrau. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi'i greu a'i ddiweddaru.<br>Mae cymhwyso'r cynnydd mewn rhent i'r holl denantiaid yn golygu y byddwn yn dosrannu'r cynnydd yn deg ac yn cyfyngu ar y cynnydd unigol fesul tenant. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau godi rhenti yn flynyddol ac mae'n darparu fformiwla briodol at y pwrpas hyn.<br>Mae rhwymedigaeth ar gynghorau i gynnal safon uchel o lety ar gyfer eu tenantiaid, ac felly maent yn dibynnu ar y refeniw ychwanegol hwn i wrthsefyll effeithiau chwyddiant.<br>Ni fydd y cynnydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o denantiaid oherwydd eu bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim – nid yw'r codiad rhent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg o ystyried y bydd y cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth yn effeithio ar bob tenant. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth ar 26 Tachwedd 2025 ac ystyriwyd sylwadau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw wrth ddrafftio'r adroddiad terfynol. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Yn bresennol yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 26 Tachwedd 2025 |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Yn bresennol yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 26 Tachwedd 2025 |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Llythyr Hysbysu Llywodraeth Cymru 2026/27<br>Polisi Cynllun Cymorth Rhent |

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Cynllun Tai Cyngor newydd ar safle Plas Penlan, Llangefni

New Council Housing Scheme at Plas Penlan, Llangefni

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)
**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-
**Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act 1992 **Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978** / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 **Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986** / the Building Societies Act 1986; **neu** / or **Deddf Elusennau 1993** / the Charities Act 1993
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mi fyddai'r cyhoedd a'r datblygwr yn gweld faint mae'r Cyngor yn fodlon talu am dai cyngor newydd cyn bod cytundeb pris wedi ei gytuno'n derfynol.**<br><br>**This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, the public and other developers would see how much the Council is willing to pay for new Council houses before the price has been finally agreed.** | **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mai'n bosibl y byddai'n gallu i negydu contractau gyda contractwyr eraill yn y dyfodol yn anoddach.**<br><br>**Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.**<br><br>**This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, it is possible that the ability to negotiate contracts with other contractors would be more difficult in future.**<br><br>**Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work.** |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank